social care
institute for excellence

# Trosolwg o adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr

Adroddiadau blynyddol 2020-2021 Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

# Gwybodaeth am SCIE

Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth yn gwella bywyd pobl o bob oedran trwy gyd-gynhyrchu, rhannu a chefnogi'r defnydd o'r wybodaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael am yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol. Rydym ni'n asiantaeth flaenllaw ar gyfer cefnogi gwelliant ac yn elusen annibynnol sy'n gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi oedolion, teuluoedd a phlant ar draws y Deyrnas Unedig. Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cysylltiedig fel gofal iechyd a thai.

Rydym yn gwella ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion a phlant trwy:

- nodi a rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a beth sy'n newydd
- cefnogi pobl sy'n cynllunio, yn comisiynu, yn cyflwyno ac yn defnyddio gwasanaethau i roi'r wybodaeth honno ar waith
- llywio, ysbrydoli a dylanwadu ar gyfeiriad ymarfer a pholisi yn y dyfodol.

Ysgrifennwyd gan Carmen Colomina

Cysylltwch â **carmen.colomina@scie.org.uk**

Cyhoeddwyd yn gyntaf ym Mhrydain ym Mawrth 2022 gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth

©SCIE Cedwir pob hawl

Social Care Institute for Excellence

**www.scie.org.uk**

social care
institute for excellence

**Contents** **3**


1. Cyflwyniad 5
2. Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad? 5
3. Perfformiad 7
   - 3.1 Rheoli perfformiad 7
   - 3.2 Gwybodaeth reoli ac arolygiadau 7
4. Y Gweithlu 8
5. Llesiant 13
6. Atal ac ymyrryd yn gynnar 14
   - 6.1 Atal ac ymyrryd yn gynnar 15
   - 6.2 Gwybodaeth, cyngor a chymorth 17
   - 6.3 Gofal canolraddol, ailalluogi a galluogi 19
   - 6.4 Seibiant, egwyliau byr a chysylltu bywydau 20
   - 6.5 Datblygu cymunedol 21
   - 6.6 Mentrau cymdeithasol a micro 23
7. Eiriolaeth 24
8. Integreiddio, cydweithredu a phartneriaeth 24
   - 8.1 Integreiddio, cydweithredu a phartneriaeth 24
   - 8.2 . Ceisio adborth a barn gan unigolion 30
9. Cyflogaeth ac addysg 37
   - 9.1 Cyflogaeth 37
   - 9.2 Addysg 38
10. Diogelu 39
   - 10.1 Diogelu 39
   - 10.2 Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (LPS/ DOLS) 44
11. Gofalwyr 45
   - 11.1 Gofalwyr 45
   - 11.2 Gofalwyr maeth, mabwysiadu a gwarcheidwaeth 49
12. Dementia 51

13. Tai a digartrefedd ... 53
14. Plant sy'n derbyn gofal, llety i blant ac ymadawyr gofal ... 56
15. Y Gymraeg ... 57
16. Galluogwyr ... 58
16.1 Ffyrdd o weithio ... 59
16.2 Technoleg ... 60
16.3 Comisiynu, brocera a thaliadau uniongyrchol ... 62
17. Seiliedig ar anghenion cleientiaid ... 64
17.1 Iechyd meddwl ... 64
17.2 Camddefnyddio sylweddau ... 66
17.3 Anableddau dysgu, gwasanaethau i bobl anabl a phontio ... 66
17.4 Ffoaduriaid a cheiswyr lloches ... 70
17.5 Cyfiawnder ieuenctid ... 70
18. Darparu gofal cymdeithasol (rhyddhau o'r ysbyty, gofal dydd, gofal cartref a chartrefi gofal) ... 71
19. Amrywiol ... 73
20. Blaenoriaethau 2021/2022 ... 75

## 1. Cyflwyniad

Mae Adran 144A Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu sut y gwnaethant arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. Gelwir yr adroddiadau hyn yn 'Adroddiadau'r Cyfarwyddwyr' yn aml.

Fe wnaeth Gofal Cymdeithasol Cymru gomisiynu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth i gynnal adolygiad annibynnol o'r 22 adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21.

Mae'r cynnyrch yn adnodd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'u timau gael gwell dealltwriaeth o'r gwahanol fentrau a roddwyd ar waith ar draws awdurdodau lleol (ALlau) yng Nghymru.

## 2. Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn drosolwg o'r mentrau allweddol a roddwyd ar waith mewn gwasanaethau cymdeithasol gan 21 o'r 22 ALl yng Nghymru. Adolygom Adroddiadau'r Cyfarwyddwyr ar gyfer 2020-21, gyda'r eithriadau canlynol:

- Nid oedd adroddiad Ceredigion ar gael ar adeg y prosiect hwn felly nid yw gwybodaeth am Geredigion wedi cael ei chynnwys.
- Mae adroddiad Pen-y-bont ar Ogwr yn cwmpasu dwy flynedd o weithgarwch ac nid yw'n glir beth ddigwyddodd yn 2020-21. Am y rheswm hwn, cynhwysom y mentrau mwyaf arwyddocaol yn unig.
- Mae adroddiad Powys yn canolbwyntio ar y gweithgareddau hanfodol sydd wedi'u cynnwys yn ei gynllun parhad busnes o Fawrth 2020. Nododd y cynllun y gweithgareddau y byddai'r awdurdod lleol yn rhoi'r gorau iddynt i wneud lle ar gyfer y gweithgareddau hanfodol hyn.

Mae'r adolygiad yn amlygu'r mentrau allweddol y rhoddodd awdurdodau lleol nhw ar waith yn 2020-21, fel y disgrifiwyd yn eu hadroddiadau. Mae'n hepgor busnes yn ôl yr arfer a mentrau a oedd eisoes yn bodoli.

Nid yw'r ffaith nad oes gan un ALl unrhyw beth o dan un neu fwy o'r themâu yn golygu nad oedd gan yr ALl unrhyw weithgarwch yn y maes hwnnw.

Mae pandemig byd eang Covid-19 wedi effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio ers diwedd Chwefror 2020. Bu'n rhaid i ALlau addasu yn wyneb cyfnodau clo a'u goblygiadau, dosbarthu cyfarpar diogelu personol, datblygu cynlluniau wrth gefn, cau ac ailagor gwasanaethau ac adeiladau, darllen a chrynhoi canllawiau, a chynorthwyo â gweithredu canllawiau newydd yn barhaus. Nid yw'r rhan fwyaf o'r cynlluniau wrth gefn wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn, oni nodwyd eu bod yn ddefnyddiol a'u bod yn parhau ar ôl y pandemig.

**Sut caiff yr adroddiad ei strwythuro**:

Mae'r themâu a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar:

- gynnwys adroddiadau blynyddol yr 21 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (rhestr yr ALlau)

- y themâu yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth
- y themâu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Nid yw'r gyfres olaf o themâu yn adlewyrchu'r un o'r uchod yn union, maent yn gyfuniad o'r cyfan ohonynt o ran y mentrau a nodwyd o'r adroddiadau. Rydym wedi mynd gam ymhellach i'w grwpio yn themâu.

Cyflwynir gwybodaeth bennawd fer am fentrau awdurdodau lleol yma. Mae gwybodaeth fanwl bellach am y mentrau allweddol i'w gweld yn yr adroddiadau unigol o bob ALl.

## 3. Perfformiad

### 3.1 Rheoli perfformiad

Ym mis Ebrill 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru God Ymarfer diwygiedig newydd ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cyfres newydd o safonau ansawdd, a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys tair elfen: mesur gweithgarwch a pherfformiad, deall profiad a chanlyniadau a defnyddio tystiolaeth fel sail ar gyfer gwella.

Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau yn sôn am gymhlethdod adrodd eleni gan nad oes hanes digon hir gan yr holl ddangosyddion newydd i fod yn ystyrlon, ac nid yw'r dangosyddion blaenorol yn briodol ym mhob achos. Mae'r ymateb i bandemig Covid-19 wedi golygu dull cwbl newydd gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol tuag at lawer o'u cyfrifoldebau, ynghyd â'r angen am roi'r gorau i ddarparu eraill, sydd wedi bod yn anodd ei adlewyrchu yn y wybodaeth am berfformiad.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Caerdydd** | Penodi Rheolwr Sicrhau Ansawdd i gynorthwyo Gwasanaethau Oedolion i barhau i wella. | • Gwasanaethau oedolion |
| **Merthyr Tudful** | Creu haen sicrhau ansawdd ychwanegol mewn timau gwaith cymdeithasol. Bob chwarter, bydd un achos o blith llwyth achosion pob gweithiwr yn cael ei ddewis er mwyn cwblhau archwiliad myfyriol. | • Archwiliad achos |
| **Abertawe** | Defnyddio dull Ymholiad Gwerthfawrogol (DEEP) i gael gwell gwybodaeth i gefnogi gwaith gyda phlant a theuluoedd, fel rhan o Fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd Plant a Theuluoedd. | • Ymarfer da |
| **Wrecsam** | Datblygu ffrwd waith Perfformiad, Ymarfer a Sicrhau Ansawdd yn y Gwasanaethau Plant sy'n cynnwys cynllun archwilio 12 mis trylwyr. | • Archwiliadau<br>• Gwasanaethau plant |

### 3.2 Gwybodaeth reoli ac arolygiadau

Gofynnodd Llywodraeth Cymru hefyd am gyflenwi set ddata wythnosol er mwyn monitro'r galw am wasanaethau a phwysau ar y gweithlu yn fanwl. Galluogodd y data hwn iddynt olrhain perfformiad ar draws Cymru yn ystod yr argyfwng.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Caerdydd** | Yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant yn Chwefror 2020, cynhaliwyd arolygiad pellach seiliedig ar risg ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020. Canolbwyntiodd trywyddau ymholi'r arolygiad seiliedig ar risg ar fframwaith 4 egwyddor allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r canlyniad wedi'i gynnwys yn y cynllunio ar gyfer gwella ymarfer yn barhaus.<br>Cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ymweliad â Chaerdydd ym mis Rhagfyr i 'bwyso a mesur' yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan ddilyn ymlaen o'r arolygiad yn Chwefror 2020. | • Arolygiad risg<br>• Carchardai |
| **Powys** | Datblygu Dangosfwrdd Cartrefi Gofal sy'n dal gwybodaeth gyfredol cartrefi gofal am swyddi gwag.<br>Adolygu Fframwaith Dysgu a Sicrhau Ansawdd y Gwasanaethau Plant wedi ei lywio gan y dull Arwyddion Diogelwch i gyflawni canlyniadau gwell i blant a deall 'sut beth yw da'. | • Dangosfwrdd<br>• Fframwaith Sicrhau Ansawdd (Plant) |
| **Abertawe** | Ehangu'r gwaith o gael data ansoddol a meintiol, gan nodi sut olwg sydd ar ymarfer gorau drwy amddiffyn plant, paneli a gwaith argyfwng. | • Data ac ymarfer |
| **Wrecsam** | Datblygu byrddau gwaith dros y we ar gyfer llwythi achosion ac asesiadau rheolwyr a gweithwyr cymdeithasol. | • Byrddau gwaith dros y we |

## 4. Y Gweithlu

Ar draws y rhan fwyaf o ALlau, mae staff wedi cael eu hailddosbarthu i leoliadau eraill yn ystod y pandemig. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau yn pwysleisio'r ymdrech a wnaeth eu gweithlu i ddarparu gofal a chymorth yn ystod y pandemig a chydnabyddant mai'r gweithlu yw eu hased pennaf.

Gwnaeth pob ALl newid sylweddol i'r ffordd y maent yn gweithio, gan fod yn hyblyg yn wyneb y canllawiau a oedd yn newid yn gyson ac anghenion ac amgylchiadau'r unigolion yn eu cymunedau. Am gyfnodau hir, cyflwynwyd y rhan fwyaf o weithgareddau, neu'r cyfan ohonynt, trwy ddulliau ar-lein ac mae'r rhan fwyaf o ALlau wedi addasu'u rhaglenni hyfforddiant, gan gynnwys sefydlu, i sianeli ar-lein.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Caerdydd** | Gweithredu taliad atodol ar sail y farchnad ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol y mae'n anodd penodi iddynt.<br>Datblygu pecyn sefydlu cynhwysfawr i ddechreuwyr newydd.<br>Adolygu'r polisi goruchwylio mewn ymgynghoriad â gweithwyr cymdeithasol.<br>Gwreiddio nifer o rolau arbenigol yn y timau rheoli achosion a gweithio ar ddatblygu cyfuniad sgiliau timau i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu canolbwyntio ar wneud y tasgau dim ond gweithwyr cymdeithasol sy'n gallu eu gwneud.<br>Cyflwyno hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol, Arwyddion Diogelwch mewn Gwasanaethau Plant ac ymarfer seiliedig ar gryfderau mewn Gwasanaethau Oedolion. | • Taliad atodol ar sail y farchnad<br>• Sefydlu<br>• Goruchwylio<br>• Rolau arbenigol<br>• Cyfathrebu cydweithredol<br>• Arwyddion Diogelwch a Seiliedig ar Gryfderau |
| **Conwy** | Gweithio gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru i greu cronfa o staff yn eu plith i gefnogi gwytnwch cartrefi gofal trwy Femorandwm o Ddealltwriaeth rhyngddynt.<br>Cynnal dadansoddiad o'r gweithlu a sefydlu Grŵp Adnewyddu Gofal Cymdeithasol i adolygu'r swyddogaethau a'r gweithgareddau o fewn gofal cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), yn gysylltiedig â'r Rhaglen Adnewyddu Corfforaethol.<br>Datblygu Cynllun Dysgu Craidd ar gyfer staff mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a fydd yn cael eu hailddosbarthu i feysydd gwasanaeth critigol.<br>Cynnal diwrnod hyfforddi amlasiantaethol, hyfforddiant Diogelu Unigolion Cysylltiedig, cynnal asesiad gwaith cymdeithasol lefel 3. | • Banc staff<br>• Dadansoddiad o'r gweithlu<br>• Cynllun dysgu craidd<br>• Diwrnod hyfforddi amlasiantaethol |
| **Sir Ddinbych** | Safoni cwblhau dau ddarn ymarfer myfyriol dros y flwyddyn, gydag o leiaf un ohonynt yn canolbwyntio ar ddiogelu o fewn Timau Gwasanaethau Gweithredol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion.<br>Datblygu newyddlen fisol Tîm Datblygu'r Gweithlu gyda gwybodaeth i ddarparwyr.<br>Datblygu e-Gyflwyniad i staff sydd wedi'u hadleoli i'r Sector Gofal a phobl sy'n gwirfoddoli yn y sector hwnnw.<br>Gweithio gyda TGP Cymru (Tros Gynnal Plant) ar hyfforddiant Eiriolaeth i bob un o'r Gwasanaethau Plant.<br>Cyflwyno hyfforddiant "Gweithio gyda Rhieni sy'n Camddefnyddio Sylweddau a Chanabis". | • Ymarfer myfyriol<br>• Newyddlen y gweithlu<br>• E-Gyflwyniad<br>• Hyfforddiant eiriolaeth<br>• Cymorth Cyntaf Seicolegol<br>• Hyfforddiant rheoli gwrthdaro a chwynion<br>• Gofalwyr Maeth |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Comisiynu Tidal Training i gyflwyno Cymorth Cyntaf Seicolegol a chwrs ôl-drafod i hwyluswyr wedi digwyddiad ar gyfer y gweithlu.<br>Datblygu Hyfforddiant Rheoli Gwrthdaro ac Ymdrin â Chwynion, ar draws Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.<br>Darparu hyfforddiant ar-lein i Staff ac e-Ddysgu ar gyfer Gofalwyr Maeth. | |
| **Sir y Fflint** | Datblygu llwybr newydd i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ymuno â thimau i fynd i'r afael â heriau recriwtio cyfredol.<br>Llunio partneriaeth â Community Care Inform i gryfhau prosesau sefydlu i Weithwyr Cymdeithasol sy'n ymuno â Gwasanaethau Plant.<br>Darparu hyfforddiant ar Recriwtio Seiliedig ar Werthoedd gan Helen Anderson Associates a thimau Lles i swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Darparu Care First fel Gwasanaeth Cymorth i Weithwyr i roi cymorth emosiynol ac ymarferol ar gyfer problemau gartref neu yn y gwaith, ac ymestyn mynediad i'r holl staff mewn darparwyr gofal sector annibynnol.<br>Datblygu rhaglen hyfforddiant anwytho i wirfoddolwyr a 'recriwtiwyd' fel rhan o'r ymateb i COVID-19.<br>Cynnig y 'Llwybrau i Ofal Cymdeithasol' yn rhithwir, gan weithio mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf.<br>Diwygio dosbarthu'r Cynllun Talebau Hyfforddiant.<br>Llunio a chyflwyno rhaglen addysgu a dysgu ar gyfer y cymwysterau craidd ym maes gofal cymdeithasol, sy'n addas at y diben ac yn bodloni gofynion y corff dyfarnu.<br>Datblygu 'rhaglen anwytho' o hyfforddiant gorfodol y gall staff newydd ei gwblhau o fewn cyfnod 3 wythnos. | • Llwybr i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol<br>• Sefydlu<br>• Recriwtio Seiliedig ar Werthoedd<br>• Cymorth i Weithwyr<br>• Cyfnod sefydlu i wirfoddolwyr<br>• Llwybrau Gofal Cymdeithasol<br>• Talebau Hyfforddiant<br>• Hyrwyddwyr Digidol<br>• Addysgu a dysgu mewn Gwaith Cymdeithasol<br>• Hyfforddiant sefydlu gorfodol |
| **Gwynedd** | Lansio ymgyrch #SOSGalwGofalwyr i fynd i'r afael â phrinder yn y gweithlu Gofal Cymdeithasol Oedolion. | • Ymgyrch recriwtio |
| **Ynys Môn** | Trefnu sesiynau ar Gyfathrebu â Chleientiaid o Bellter i gynorthwyo Gweithwyr Cymdeithasol i gynnal cysylltiad ystyrlon, ynghyd â Sesiynau Profedigaeth Cruse. | • Gweithio o bellter<br>• Sesiynau profedigaeth<br>• Ymarfer Myfyriol<br>• Gofalwyr Maeth |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Darparu “Ymarfer Myfyriol a Chysylltiadau Myfyriol” a mynediad at ddulliau cefnogi i ddatblygu gwydnwch.<br>Datblygu rhaglen hyfforddi lawn i Ofalwyr Maeth. | |
| **Merthyr Tudful** | Gweithio gyda Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol i gynllunio anghenion dysgu a datblygu.<br>Parhau i weithio gyda Llysgenhadon Gofal i ddenu, recriwtio a chadw staff.<br>Gweithio gyda phartneriaid ac Adnoddau Dynol (AD) mewnol ar fynediad at borth swyddi ‘Gofalwn’ i gefnogi recriwtio ar draws y sector. | • Therapyddion Galwedigaethol<br>• Denu, Recriwtio a Chadw<br>• Porth Gofalwn |
| **Sir Fynwy** | Cyflwyno ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl i ystyried gyrfa ym maes gofal.<br>Datblygu sgiliau staff mewnol i ddarparu hyfforddiant gofal meddyginiaeth gan ddefnyddio dull hyfforddi’r hyfforddwr. Mae 12 o staff hyfforddi’r hyfforddwr ar draws y gyfarwyddiaeth bellach.<br>Gwreiddio’r Fframwaith Dysgu a Datblygu Maethu Cenedlaethol. Cynyddodd ystod y gwaith a wnaed allu staff medrus i gyflwyno gwasanaeth hyblyg a chost effeithiol 7 niwrnod, sydd o ansawdd uchel. | • Ymgyrch recriwtio yn y cyfryngau cymdeithasol<br>• Hyfforddwyr mewnol<br>• Fframwaith Maethu Cenedlaethol – Maethu Cymru Sir Fynwy |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Cyflwyno rhaglen hyfforddi ar-lein: o ymwybyddiaeth o Awtistiaeth i ddiogelu, ac o anogaeth ddigidol i ofalwyr maeth i ddelio â datgeliadau am drais rhywiol.<br>Sefydlu rhaglen hyfforddi i hyfforddi gwirfoddolwyr i baratoi i weithio mewn cartrefi gofal yn y sector annibynnol. | • Rhaglen hyfforddi ar-lein<br>• Hyfforddiant i wirfoddolwyr |
| **Sir Benfro** | Datblygu micro-safle recriwtio gweithwyr cymdeithasol a gofal cymdeithasol ar wefan Sir Benfro.<br>Datblygu cynllun peilot recriwtio a hyfforddi ar y cyd ag ALlau eraill i gefnogi ymgyrch recriwtio genedlaethol ‘Gofalwn’.<br>Diwygio’r llyfryn cynefino Croeso Corfforaethol a Gofal Cymdeithasol.<br>Datblygu dysgu rhyngweithiol gofal cymdeithasol (SCIL) i gyflwyno hyfforddiant ar-lein i’r sector cyfan gyda safle Moodle yn gartref i adnoddau hyfforddiant.<br>Recriwtio hyfforddai Kickstart i gefnogi staff gofal cymdeithasol i gael at gyrsiau hyfforddi ar-lein digidol trwy Teams, Zoom a SCIL. | • Ardal recriwtio gofal cymdeithasol ar y wefan<br>• Cynllun peilot recriwtio Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>• Cynefino<br>• SCIL – Platfform Dysgu Digidol<br>• Hyfforddai Kickstart |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Powys** | Gweithredu Polisi newydd ar Ymddygiad Annerbyniol gan Gwsmeriaid.<br>Parhau i ddefnyddio 'Tyfu Rhai Ein Hunain' i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw ym maes gwaith cymdeithasol.<br>Cynhyrchu arolygon staff i nodi sgiliau staff i'w hailddosbarthu, a oedd angen gofal plant ar staff fel y gallent barhau i weithio, ac a oeddent yn barod i weithio oriau ychwanegol.<br>Darparu hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol a hyfforddiant ar sail cryfderau. | • Polisi ar Ymddygiad Annerbyniol gan Gwsmeriaid<br>• Tyfu Rhai Ein Hunain<br>• Arolygon staff<br>• Ar sail cryfderau<br>• Cyfathrebu cydweithredol |
| **Rhondda Cynon Taf** | Cynnal adolygiad o dâl ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Cynllunio adolygiad ehangach o ddatblygiad y gweithlu.<br>Neilltuo cyllid ar gyfer datblygu ac ymestyn rhaglenni cymorth lles, a fydd yn cefnogi pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ochr yn ochr â'u cydweithwyr ar draws y sefydliad.<br>Cynnal wythnos lles staff ym mis Rhagfyr 2020. | • Adolygiad tâl Gweithwyr Cymdeithasol<br>• Rhaglenni cymorth lles<br>• Wythnos lles staff |
| **Abertawe** | Mabwysiadu ymagwedd newydd at Gynllunio Gwasanaethau ac Arfarniadau mewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>Cynnal peilot Dim Oriau Craidd, fel rhan allweddol o Strategaeth Lles ac Ymgysylltu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>Datblygu Croeso i #Hyfforddiantdyddmawrth! – bwletinau hyfforddi wythnosol i roi gwybod i'r holl staff am y cyfleoedd hyfforddi diweddaraf.<br>Gweithredu modelau ymarfer fel 'Arwyddion Diogelwch' a 'Chyfathrebu Cydweithredol' i gryfhau'r cysylltiadau â thimau gwaith cymdeithasol rheng flaen.<br>Trwy'r tîm ailgynllunio, peilota rhan o'r adolygiad meddwl trwy systemau o Gynllunio Gofal â Chymorth (SCP) a pharhau i arbrofi â ffyrdd o roi'r system, yr amser, yr offer a'r gallu cywir i staff allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth. Diben yr SCP newydd yw "I chi weithio gyda mi a'r bobl o'm cwmpas i wneud fy mywyd i yn well." | • Arfarniadau<br>• Peilot Dim Oriau Craidd<br>• Bwletinau hyfforddiant |
| **Torfaen** | Sefydlu Consortiwm Coleg Gyrfaoedd trwy fwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent a darparwyr addysg bellach. Darparu ymagwedd fwy cyfannol at recriwtio, hyfforddiant a chymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol. | • Consortiwm Coleg Gyrfaoedd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Bro Morgannwg** | Sefydlu a dechrau recriwtio i uned hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol y Fro<br>Cwblhau arolwg o alw a chadarnhau bod angen gweithiwr cymdeithasol ychwanegol i blant a phobl ifanc wrth y 'drws ffrynt'.<br>Adolygu a diweddaru trefniant tâl i gynorthwyo â recriwtio a chadw.<br>Datblygu ymgyrch recriwtio bwrpasol yn targedu gweithwyr cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc. | • Uned Hyfforddi<br>• Adolygiad o alw<br>• Adolygiad tâl<br>• Ymgyrch recriwtio |
| **Wrecsam** | Cyflwyno cyrsiau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer cynllunio gofal a chymorth. Helpodd yr hyfforddiant hwn â chynllunio datblygiad Cynllun Amddiffyn Plant Amlasiantaeth.<br>Cyflwyno hyfforddiant mewn cynadledda grŵp a chyfryngu i deuluoedd ar draws yr adran. | • Dull seiliedig ar ganlyniadau<br>• Cyfryngu i grwpiau teuluoedd |

## 5. Llesiant

Mae'r adran hon yn llunio'r mentrau allweddol a roddwyd ar waith gan Awdurdodau Lleol Cymru gyda'r nod o hyrwyddo lles unigolion yn y gymuned.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Mapio darpariaeth bresennol gweithgareddau cymorth a chynnig amrywiaeth o weithgareddau ar-lein rhad ac am ddim yn ystod Covid-19 i oedolion er mwyn llenwi'r bylchau. Datblygodd y tîm Becyn Llesiant i bobl sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu ar-lein. | • Pecyn i ymgysylltu |
| **Sir Ddinbych** | Gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ymgynghori Personol, a ddarperir gan Barnardo's, gan fonitro effaith y cyfnod clo ar les ymadawyr gofal. | • Llesiant i Ymadawyr Gofal |
| **Sir y Fflint** | Gweithio gyda phartneriaid yn y Gymuned i gyflwyno 'Fframwaith Gwytnwch Cymunedol' mewn dwy gymuned yn Sir y Fflint, y Fflint a Threffynnon (Holway), gan ddefnyddio Arweinyddiaeth Systemau yn fethodoleg.<br>Ymuno â Theatr Clwyd ac aelodau'r gymuned leol mewn galwad gyhoeddus am roi blychau esgidiau llawn pethau difyr a lliwgar er mwyn gwneud y byd yn lle gwell i berson ifanc yn Sir y Fflint. | • Fframwaith Gwytnwch Cymunedol<br>• Blychau esgidiau difyr |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Gwynedd** | Datblygu tudalen Facebook i rannu digwyddiadau iechyd a llesiant yng Ngwynedd ar y cyd â'r Llyfryn Edrych ar ôl fy Hun.<br>Cynnal pythefnos greadigol ar-lein o'r enw Llesiant i Mi rhwng 18 a 31 Ionawr, sy'n rhad ac am ddim i bawb dros 18 oed. | • Digwyddiadau llesiant ar Facebook.<br>• Llesiant i Mi |
| **Sir Fynwy** | Gweithredu tîm therapiwtig BASE (Meithrin ymlyniadau, diogelwch a llesiant emosiynol) sy'n defnyddio egwyddorion ymlyniad i wella deiliannau i blant a phobl ifanc mewn gofal yn Sir Fynwy. | • Egwyddorion ymlyniad |
| **Merthyr Tudful** | Rhoi'r Tîm llesiant cymunedol ar waith. | • Tîm Llesiant |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Creu 'CESAR' (Adferiad Cymdeithasol ac Emosiynol Plant sy'n Dioddef Trallod) i gefnogi llesiant plant a theuluoedd. Ar y cyd ag YMCA Port Talbot, dilynodd dau grŵp gwahanol o bobl ifanc (8-12 oed a 13 i 16 oed) raglen gweithgareddau haf dros chwech wythnos.<br>Gwaith â ffocws gyda phartneriaid i wella mynediad at y cymorth cywir i blant a phobl ifanc sydd â llesiant emosiynol/iechyd meddwl gwael.<br>Cynnal cyfarfodydd adolygiadau cymheiriaid gydag asiantaethau partner, gan gynnwys Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). | • Gweithgareddau haf – Plant<br>• Mynediad at gymorth – Plant<br>• Cyfarfodydd adolygiadau cymheiriaid |
| **Powys** | Cynllunio prosiect i greu Campws Lles Aml-asiantaeth yng nghanol y Drenewydd, i fynd i'r afael â phrif achosion salwch a llesiant gwael. | • Campws Llesiant Aml-asiantaeth |
| **Rhondda Cynon Taf** | Creu'r Llwybr Llesiant i Blant a Phobl Ifanc ochr yn ochr ag ysgolion a'r Gwasanaeth Presenoldeb a Llesiant, i gefnogi plant a phobl ifanc, a theuluoedd, gyda dychwelyd i'r ysgol. | • Llwybr Llesiant – Plant |
| **Wrecsam** | Cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y trydydd sector, rhanddeiliaid a dinasyddion i ailfodelu un o adeiladau swyddfa Cyngor Wrecsam yn ganolfan iechyd a lles newydd sbon. Bydd y llawr gwaelod yn gartref i'r ganolfan ar gyfer pobl, teuluoedd, plant a gofalwyr di-dâl.<br>Lansio apiau "Mind of My Own" ar draws gwasanaethau plant, i helpu plant a phobl ifanc i rannu eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn gyflym ac yn hawdd. | • Canolfan Iechyd a Lles Cymunedol<br>• Mind of My Own |

## 6. Atal ac ymyrryd yn gynnar

Gwnaeth y rhan fwyaf o ALlau sylwadau am y newidiadau sylweddol a fu o fewn eu cymunedau o ganlyniad i'r pandemig. Un newid yw datblygiad grwpiau cymunedol niferus, ac mae nifer o ALlau wedi gweithio gyda'r grwpiau i gefnogi'u cynaliadwyedd. Nid yw'n bosibl eto gwybod effaith yr holl ddatblygiadau cymunedol hyn o ran newid siâp anghenion y boblogaeth, ond cydnabyddir y byddant yn chwarae rhan allweddol wrth atal anghenion ar gyfer gofal a chymorth.

### 6.1 Atal ac ymyrryd yn gynnar

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Datblygu rhaglenni presgripsiynau cymdeithasol, gan gynnwys Cryfach Gyda'n Gilydd a Creative @ Home. | • Presgripsiynau cymdeithasol |
| **Sir Gaerfyrddin** | Parhau i weithio gyda Llesiant Delta, i ddatblygu Strategaeth Atal TEC (Gofal trwy Gymorth Technoleg) ar gyfer y rhanbarth, gan gynnwys prosiect CONNECT (https://connectcarmarthenshire.org.uk/). Mae'r rhaglen yn cyfuno galwadau telefonitro a llesiant integredig, rhagweithiol, gydag ymateb cyflym a chymorth yn y gymuned. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhaglen yn cefnogi diogelwch pobl yn ogystal â lleihau unigrwydd ac ynysu.<br><br>Cyrraedd rownd derfynol Gwobr Rhagoriaeth Trawsnewid y Sector Cyhoeddus, sy'n "enghraifft o'n huchelgais o weithio ar draws ffiniau'r sector i sicrhau bod dull radical sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei arddel ar gyfer llesiant, gofal a chymorth." | • Strategaeth Atal TEC – Prosiect CONNECT<br>• Gwobr Rhagoriaeth Trawsnewid y Sector Cyhoeddus |
| **Sir Ddinbych** | Gweithredu'r Grŵp Rhianta fel tîm therapiwtig i weithio'n uniongyrchol gyda rhieni plant a phobl ifanc yr aseswyd eu bod mewn perygl uchel o gam-fanteisio. Mae'r Ymarferwyr Therapiwtig yn defnyddio Model PACE (Chwarëusrwydd, Derbyn, Chwilfrydedd, Empathi).<br><br>Datblygu tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol Bwthyn Y Ddol i wella gwaith ataliol yn y rhanbarth gyda phlant a phobl ifanc sydd ar ffiniau gofal ac mewn perygl y bydd angen gofal arnynt.<br><br>Dechrau datblygu canolfan fodern a fydd yn cynnwys tri adeilad ar wahân gyda llety asesu wedi'i gynllunio ymlaen llaw i bedwar plentyn neu berson ifanc, llety byrdymor, heb ei gynllunio, i ddau blentyn neu berson ifanc, a chanolfan asesu ac ymyrryd. Disgwylir cwblhau'r datblygiad yn ystod 2022.<br><br>Cyflwyno prosiect gwirfoddoli yn gynnar yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19, i leihau arwahanrwydd cymdeithasol a chynorthwyo unigolion ag anghenion gofal is, gyda llwyddiant y prosiect i'w weld ym mharhad yr anogaeth a'r gefnogaeth i bobl ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas ar ôl Covid-19. | • Plant mewn perygl o gamfanteisio<br>• Tîm amlddisgyblaethol yn atal yr angen am roi plant mewn gofal<br>• Gwasanaeth asesu ac ymyrryd gyda llety i blant a phobl ifanc<br>• Arwahanrwydd cymdeithasol – gwirfoddolwyr |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Gwynedd** | Mapio'r gwasanaethau a'r grwpiau sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn cymunedau, i nodi'r bylchau, a chysylltu ag unigolion sydd angen cymorth â gwasanaethau, yn ogystal â hybu mentrau cymunedol.<br>Gwneud gwaith i amlygu rhwystrau a gwella'r ddealltwriaeth ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o alluogi pobl i ofalu am eu llesiant eu hunain a byw'r bywyd a ddymunant.<br>Sefydlu Gwasanaeth Trobwynt i weithio'n ddwys gyda theuluoedd ar drothwy gofal. Mae Tîm Trobwynt yn cynnig pecynnau cymorth dwys gyda'r nod o gadw plant yn sefydlog yn eu cartref. | • Mapio gwasanaethau a grwpiau cymunedol<br>• Gwydnwch cymunedol<br>• Nodi rhwystrau rhag mynediad at gymorth<br>• Tîm Trobwynt |
| **Ynys Môn** | Ymestyn Prosiect Rhagnodi Cymdeithasol Linc Cymunedol Môn. | • Ymestyn Prosiect Rhagnodi Cymdeithasol Linc Cymunedol Môn. |
| **Merthyr Tudful** | Gweithredu gwasanaeth Stay Well @Home2 i atal pob rhag cael eu derbyn i ysbyty. | • Gwasanaeth Stay Well @Home2 |
| **Sir Fynwy** | Parhau i wreiddio prosiect 'Mae angen pentref i fagu plentyn' i gynnig gwasanaethau cymorth cynnar, therapiwtig a llesiant. Y panel amlasiantaethol wythnosol, a sefydlwyd yn 2018, yw'r pwynt mynediad unigol ar gyfer atgyfeiriadau am gymorth nad yw'n gymorth brys. Y nod yw sicrhau nad yw pobl yn cael profiad o 'ddrws sy'n troi' wrth geisio cael at gymorth.<br>Sefydlu Tîm Adeiladu Teuluoedd Cryf (y Tîm o Gwmpas y Teulu) – gweithio gyda theulu sydd eisiau cymorth ond nad oes angen gweithiwr cymdeithasol arnynt. Mae'r cymorth yn cael ei deilwra ac mae terfyn amser arno. (tua 12 wythnos).<br>Hyrwyddo ffocws yn y Gwasanaethau Plant i roi dull cydlynedig ar waith ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal. | • Un pwynt mynediad ar gyfer cymorth nad yw'n gymorth brys.<br>• Tîm Adeiladu Teuluoedd Cryf – nid yw'n gymorth statudol<br>• Gwasanaethau Plant |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Cefnogi Gwasanaethau Plant i ailfodelu'r gwasanaeth cyfeillio gwirfoddol i deuluoedd (Gwasanaeth SHINE https://www.nptcvs.wales/get-help/help-for-individuals/shine-befriending-service/) i ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal i wella canlyniadau plant. | • Gwasanaeth cyfeillio – gwirfoddolwyr |
| **Sir Benfro** | Darparu rhaglen ddyddiol o weithgareddau yn ystod gwyliau ysgolion ar y cyd â phartneriaid amrywiol. Wedi'i thargedu at bobl ifanc rhwng 3 a 14 oed. | • Gweithgareddau haf – plant |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Sefydlu Hyb Cymunedol amlasiantaeth rhwng Cyngor Sir Penfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Delta Wellbeing, gyda chefnogaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae ymrwymiad parhaus i'r Hyb fel rhan o broses cynllunio adfer yn sgil Covid-19. | • Hyb Cymunedol amlasiantaeth |
| **Powys** | Datblygu Strategaeth Cymorth Cynnar ddrafft. Cynnal dadansoddiad cost a budd gan ddefnyddio 'Pecyn Arbedion Cost Teuluoedd yn Gyntaf' a nodi bod y Gwasanaeth Cymorth Cynnar wedi llwyddo i osgoi costau o ryw £700,000 yn 2020-21. | • Strategaeth Cymorth Cynnar<br>• Pecyn Arbedion Cost Teuluoedd yn Gyntaf |
| **Rhondda Cynon Taf** | Gweithredu gwasanaeth "Stay well@ Home 2" i fodloni anghenion pobl gartref, gan atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty. Mae un pwynt mynediad at wasanaethau 7 diwrnod yr wythnos sy'n cael eu darparu gan feddygon teulu, nyrsys ardal a gwasanaeth ambiwlans Cymru. | • Stay well@ Home 2 |
| **Abertawe** | Rhoi gwasanaethau ataliol ar waith gan weithio yn unol â Mynd i'r Afael â Thlodi, o fudd-daliadau gwaith i ddysgu gydol, oes, gweithio mewn partneriaethau a sefydlwyd er mwyn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau statudol a gwella llesiant pobl.<br><br>Gweithredu Dewis Cymru (https://www.dewis.wales/), sef cyfeiriadur lles cenedlaethol sy'n darparu llyfrgell ar-lein o asedau cymunedol, a gynhelir gan sefydliadau eu hunain. I wneud y mwyaf o'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, mae Dewis Cymru bellach wedi'i gysylltu â systemau cenedlaethol eraill, fel Infoengine (https://en.infoengine.cymru/).<br><br>Datblygu Prosiect Gwaith Ieuenctid allgymorth ar gyfer adsefydlu ac atal/lleihau digartrefedd ymhlith pobl ifanc.<br><br>Lansio Canolfannau Cymorth Cynnar yn ganolfannau amlasiantaethol, sy'n cynnig sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' wrth y drws ffrynt, Canolfan Ddiogelu Integredig, mynediad at Wasanaethau Troseddau Ieuenctid a'r defnydd ar baneli amlasiantaethol i gefnogi ymagwedd ataliol at risgiau cyd-destunol. | • Mynd i'r Afael â Thlodi<br>• DEWIS Cymru – cyfeiriadur llesiant<br>• Prosiect Gwaith Ieuenctid Allgymorth<br>• Canolfannau Cymorth Cynnar |
| **Torfaen** | Gweithredu MyST (Fy Nhîm Cymorth), sef gwasanaeth ymyrraeth therapiwtig i blant 10 i 21 oed sy'n derbyn gofal, sy'n ceisio goresgyn trafferthion sylweddol. | • MyST i blant sy'n derbyn gofal |
| **Wrecsam** | Ymunodd y gwasanaethau plant â chydweithwyr addysg a phartneriaid eraill, gan gynnwys iechyd, yr heddlu, y trydydd sector a thai, i ddatblygu cynnig atal a chymorth cynnar gwell a llwybr integreiddio'r blynyddoedd cynnar. | • Cynnig atal a chymorth cynnar |

## 6.2 Gwybodaeth, cyngor a chymorth

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir y Fflint** | Datblygu'r tudalennau gwe presennol ar Ddementia, sy'n dwyn amrywiaeth o wybodaeth ynghyd mewn un lle, fel cyfeiriadur gwasanaethau cymorth. | • Tudalen we Dementia |
| **Gwynedd** | Creu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.<br>Sefydlu Hwb Teuluoedd Gwynedd fel bod gwybodaeth, cyngor a chymorth perthnasol ar gael mewn un lle.<br>Cydweithio â chyngor ar Bopeth a Chymdeithasau Tai ac elusennau eraill i hyrwyddo gwasanaethau cyngor ariannol lleol, ymgyrchoedd i fanteisio i'r eithaf ar incwm, a chyd-weinyddu talebau. Darparwyd taflen gyda phob bil y Dreth Gyngor i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cynghori a chymorth sydd ar gael. | • Un pwynt lleol<br>• Hwb Teuluoedd<br>• Cyngor ariannol gyda Chyngor ar Bopeth |
| **Ynys Môn** | Adolygu pwyntiau mynediad a gwybodaeth, cyngor a chymorth presennol i symleiddio mynediad i bobl.<br>Creu gwefan 'Cymuned', a fydd yn caniatáu mynediad hawdd i bobl at wybodaeth a gweithgareddau.<br>Sicrhau bod 88 dyfais â chysylltedd yn cael eu darparu i bobl hŷn roi cynnig arnynt. Cânt gefnogaeth Cydlynwyr Asedau Lleol, Swyddog Cyswllt Canolfan a Hyrwyddwyr Digidol a byddant yn cefnogi gweithgarwch rhwng y cenedlaethau. Sefydlwyd rhaglen hyfforddiant digidol a rhoddodd rhai o'r Cynlluniau Tro Da gynnig arni. | • Adolygiad IAA<br>• Gwefan Cymuned<br>• Prosiect Canolfan Rithwir |
| **Sir Fynwy** | Adolygu'r Llinell Cyngor i Deuluoedd a sefydlwyd fel ymateb i Covid-19 a phenderfynwyd parhau i gynnal y llinell. | • Llinell cyngor i deuluoedd |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Diweddaru cyfeiriadur Dewis Cymru o sefydliadau sy'n cynnig gofal a chymorth gyda Dewis Cymru i ddatblygu 'golwg clwstwr', sy'n galluogi Gweithwyr Cymdeithasol i gael at ddeunydd sy'n berthnasol i'r meysydd y maent yn gweithio ynddynt.<br>Lansio 'Pwynt Cyswllt Unigol' Oedolion a Phlant yn gyswllt cychwynnol i bobl sydd angen gwybodaeth a chyngor am iechyd a lles.<br>Cydweithredu â MacMillan trwy'r Uned Hawliau lles i helpu trigolion â chyngor ar eu hawl i fudd-daliadau. | • Diweddaru Cyfeiriadur sefydliadau Dewis<br>• Lansio Pwynt Cyswllt Unigol (Oedolion a Phlant)<br>• Hawliau lles |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Casnewydd** | Defnyddio In Reach i ymgysylltu'n dargedig â chleifion yn yr ysbyty a'u teulu i gydgynhyrchu trefniadau rhyddhau diogel i sicrhau'r annibyniaeth fwyaf.<br>Defnyddio gwybodaeth, cyngor a chymorth i gleifion ysbyty fel rhan o 'Home First', gwasanaeth y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ei redeg gyda'r nod o atal pobl rhag cael eu haildderbyn i ysbyty.<br>Cyd-leoli swyddogion arbenigol yn nhîm amlddisgyblaethol y Gwasanaeth Cyswllt Cyntaf sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y fan a'r lle i ddinasyddion mewn amrywiaeth o feysydd. | • Cynllunio rhyddhau o'r ysbyty<br>• Home First<br>• Gwasanaeth Cyswllt Cyntaf |
| **Rhondda Cynon Taf** | Datblygu cynnig gwaith ieuenctid rhithwir i bobl ifanc o fewn 72 awr i'r cyfnod clo ddechrau. Cyflwynwyd y cynnig gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, gyda chyfraniadau arwyddocaol gan bartneriaid, gan gynnwys timau iechyd rhywiol, sefydliadau camddefnyddio sylweddau, a darparwyr wedi'u comisiynu. | • Cynnig Gwaith Ieuenctid Rhithwir |
| **Abertawe** | Gweithredu'r tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig (IIAA) i Blant a Theuluoedd er mwyn deall beth sy'n bwysig i deuluoedd yn dilyn atgyfeiriad neu gyswllt am gymorth, gan olygu bod y gwasanaeth cywir yn darparu'r cymorth cywir yn amserol.<br>Datblygu pwynt mynediad cyffredin i oedolion a'u gofalwyr gael gafael ar wybodaeth a chyngor ar iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Ymestyn mynediad at wybodaeth am adnoddau cymunedol a llwybrau atgyfeirio iddynt i bobl ar lwybr Abertawe ar gyfer rhyddhau o ysbytai.<br>Sefydlu llwybr atgyfeirio uniongyrchol gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, o ddanfon bwyd i ymgyfeillio a chymorth a chyngor ariannol, sy'n aml yn cael ei arwain gan wirfoddolwyr ac yn benodol i'r gymuned. | • IAA Integredig – Plant a Theuluoedd<br>• Pwynt Mynediad Cyffredin – Oedolion<br>• Llwybr atgyfeirio uniongyrchol |
| **Torfaen** | Parhau i gefnogi a datblygu Dewis Cymru yn Nhorfaen, fel mai dyma'r lle i fynd i bobl sydd am wybodaeth, arweiniad a chyngor ar wasanaethau sydd ar gael, i gefnogi dewisiadau mwy gwybodus. | • DEWIS |

## 6.3 Gofal canolraddol, ailalluogi a galluogi

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Castell-nedd Port Talbot** | Datblygu gwasanaethau canolraddol trwy weithredu model adfer Ysbyty i'r Cartref (Hospital 2 Home (H2H)). Adolygu'r model yn ystod y pandemig a'i ail-lansio ar ffurf Rhyddhau Cyflym yn seiliedig ar y model Rhyddhau i Ymadfer ac Asesu (D2RA).<br>Sefydlu tîm amlddisgyblaethol i frysbennu a sgrinio pob atgyfeiriad gan ysbyty i'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod pobl yn cael eu gweld gan y gwasanaeth cywir ar yr adeg cywir a bod cefnogaeth ddiogel i bobl pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. | • Ysbyty i'r Cartref - D2RA<br>• Atgyfeiriadau brysbennu gan ysbytai |
| **Casnewydd** | Gweithredu ymagwedd gwbl integredig at ailalluogi i gynorthwyo â rhyddhau o ysbytai Sant Gwynllyw, Ysbyty Brenhinol Gwent a'r Grange.<br>Sefydlu Gwasanaeth Ailalluogi Dementia. | • Ailalluogi integredig<br>• Ailalluogi dementia |
| **Sir Benfro** | Agor cyfleuster ailalluogi gofal canolraddol 8 gwely i gefnogi pobl pan fyddant yn barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ond nid oes pecyn gofal ganddynt gartref. Trosglwyddwyd y gwasanaeth ailalluogi i Gyngor Sir Penfro ym mis Tachwedd 2019.<br>Parhau i arwain y llwybr Rhyddhau i Asesu a sicrhau cyllid grant ar gyfer swyddi ychwanegol. | • Cyfleuster ailalluogi gofal canolraddol<br>• Llwybr Rhyddhau i asesu 2 |
| **Powys** | Dechrau adolygiad y gwasanaeth ail-alluogi fel rhan o'r adolygiad ehangach o ofal canolraddol. | • Adolygu ail-alluogi |
| **Rhondda Cynon Taf** | Adolygu ac ailgynllunio'r Gwasanaeth Support @Home i gynorthwyo pobl i ddychwelyd i annibyniaeth cyn gynted ag y bo'n briodol a bod yn llai dibynnol ar wasanaethau a gomisiynir. Roedd y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei gyflwyno fesul cam yn 2021/22. | • Ailgynllunio Support@Home |

### 6.4 Seibiant, egwyliau byr a chysylltu bywydau

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Dechrau datblygu Cyfleuster Seibiant Bron y Nant, sef canolfan seibiant newydd i bobl anabl, uned adnoddau dydd ar gyfer gofal cymhleth, caffi, siop a chyfleusterau cymorth a adeiladwyd ym Mae Colwyn. Bydd y caffi'n cynnig cyfleoedd gwaith ychwanegol i bobl ag anableddau. | • Canolfan seibiant i bobl anabl |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir y Fflint** | Enillodd gwasanaeth seibiant Pontio'r Bwlch NEWCIS (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru) Wobr Gofal Cymdeithasol 2020 ar gyfer y categori 'Gwella gofal a chymorth gyda'n gilydd yn y cartref'. Datblygwyd y gwasanaeth mewn partneriaeth â'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr, NEWCIS a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, i gydnabod y bwlch yn y gofal seibiant tymor byr, hyblyg a hygyrch i ofalwyr. | • Gofal seibiant Pontio'r Bwlch |
| **Powys** | Nodi dau ddarparwr, un yn y sir ac un y tu allan i'r sir, i ddarparu seibiannau byr preswyl i blant. | • Darparwyr seibiannau byr preswyl – Plant |

### 6.5 Datblygu cymunedol

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Datblygu ymhellach y rhaglen Opsiynau Cymunedol, a datblygu model gwasanaeth 3 lefel gyfunol sy'n cynnwys cymorth arbenigol i bobl ag anghenion iechyd cymhleth, gweithgareddau allgymorth critigol a chymorth rhithwir i unigolion â lefel is o anghenion. | • Rhaglen Opsiynau Cymunedol |
| **Sir y Fflint** | Gweithio ar y cyd â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a neilltuodd ddau ragnodwr cymdeithasol yn Ngwasanaeth Un Pwynt Mynediad Sir y Fflint ac un yn y Gwasanaeth Cymorth Canolbwynt Help Cynnar.<br><br>Cefnogi mynediad at Ganolfan Gymunedol a 'Thŷ Cymunedol' yn yr Holway. Mae gardd gymunedol hefyd wedi'i gosod yng nghanolfan gymunedol Holway. | • Rhagnodi cymdeithasol<br>• Canolfan Gymunedol |
| **Gwynedd** | Parhau i gefnogi'r rhwydwaith cymunedol a ddatblygwyd trwy gyfeirio cymorth o'r Timau Adfywio, y Timau Cefnogi Teulu a'r Timau Oedolion. | • Rhwydwaith Cymunedol |
| **Ynys Môn** | Parhau i weithio gyda Medrwn Môn (https://www.medrwnmon.org/en/home) i roi cyfleoedd i'r gymuned nodi eu blaenoriaethau, gan fapio asedau lleol a datblygu gweledigaeth gymunedol.<br><br>Parhau i weithio gyda Chydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau yn yr Hyb Cymorth Cynnar a Chyfarfodydd Teams Cydlynwyr Ardal Lleol, ynghyd â chyfarfodydd staff Medrwn Môn. | • Rhaglen Llunio Lle<br>• Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau<br>• Cydlynwyr Asedau Lleol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Parhaodd Cydlynwyr Asedau Lleol i gefnogi unigolion a all fod yn unig, wedi'u hynysu neu sydd heb fawr o hyder. Mae Cynlluniau Tro Da a Chymorth Ardal Leol yn parhau i gynorthwyo pobl â siopa, meddyginiaeth a chludiant. | |
| **Sir Fynwy** | Cyflwyno'r gwasanaeth Cymorth Nos Cymunedol, ar draws Sir Fynwy gyfan. | • Cymorth nos cymunedol |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Symud y Tîm Cysylltu Cymunedau i gefnogi tîm gofal cartref y cyngor.<br>Parhau i gynorthwyo pobl trwy'r Gwasanaeth Annibyniaeth Gymunedol (CIS) gan ddarparu cymorth tai i bobl agored i niwed 16 oed a mwy. | • Tîm Cysylltu Cymunedau<br>• Gwasanaeth Annibyniaeth Gymunedol |
| **Casnewydd** | Cludiant Casnewydd oedd y cwmni bysys cyntaf yng Nghymru i ennill achrediad Ystyriol o Ddementia. | • Cludiant Ystyriol o Ddementia |
| **Sir Benfro** | Gyda chefnogaeth Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, sefydlwyd dros 100 o grwpiau Cymorth Cymunedol i ymateb i'r pandemig ac maent yn aelodau cofrestredig o Rwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro (PCSN), sydd newydd ei ffurfio. | • Rhwydwaith Cymorth Cymunedol |
| **Powys** | Rhoi hyfforddiant ASSIST i Swyddogion Cyswllt a hyfforddi Cysylltwyr Cymunedol i ragnodi Gofal lefel isel drwy Dechnoleg, fel synwyryddion.<br>Ychwanegu arweinydd y Cysylltwyr Cymunedol fel aelod annatod o'r Paneli Adnoddau Cymunedol i roi trosolwg ychwanegol o wasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau. | • Cyfarpar TEC lefel isel<br>• Cysylltwr Cymunedol |
| **Rhondda Cynon Taf** | Sefydlu saith Canolfan Cydnerthedd y Gymuned ar draws y sir i gydlynu'r cymorth i'r unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed.<br>Tri Chydlynydd Cymunedol yn gweithio yn ardaloedd Cynon, Taf-Elái a Rhondda'r sir. Mae cydlynydd arall yn gweithio gyda phractisau gofal sylfaenol ar draws yr ardal gyfan.<br>Yn dilyn cyfnod o law trwm a llifogydd, mae Rhondda Cynon Taf yn datblygu Mannau Gorffwys Cymunedol fel ymateb mewn argyfwng ar gyfer pob ward etholiadol, gan nodi arweinwyr cymunedol a lleoliadau cymunedol hygyrch ar gyfer argyfwng posibl. | • Canolfannau'r Gymuned<br>• Cydlynwyr Cymunedol<br>• Mannau Gorffwys |
| **Abertawe** | Wedi datblygu dull y gymdogaeth trwy Gydlynu Ardal Leol i gefnogi mentrau cymunedol a chanolbwyntio ar ofal ac adolygu yn y gymuned. | • Dull cymdogaeth<br>• Cydlynwyr Ardal Leol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Ehangu cwmpas Cydlynu Ardal Leol trwy weithio gyda phartneriaid eraill. | |
| **Torfaen** | Dosbarthu Cysylltwyr Cymunedol i gynorthwyo unigolion, grwpiau a sefydliadau i ddefnyddio technoleg a chysylltu â grwpiau. | • Cysylltwyr Cymunedol |
| **Wrecsam** | Cael cydnabyddiaeth ar gyfer gwaith gan Asiantau Cymunedol trwy Wobr Cydnabyddiaeth yng Nghyfnod Covid Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW).<br><br>Datblygu cynllun Lleoedd Diogel i roi sicrwydd i bobl a all deimlo'n agored i niwed pan fyddant yn mynd allan. Mae siopau, busnesau a sefydliadau lleol yn cofrestru i fod yn 'Lle Diogel' trwy roi sticer yn y ffenestr neu ar ddrws. | • Asiantau Cymunedol<br>• Cynllun Lleoedd Diogel |

## 6.6 Mentrau cymdeithasol a micro

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir y Fflint** | Cyflwyno Micro-ofal, i hybu gofal cymdeithasol fel opsiwn gyrfaol a helpu i ddatblygu mentrau micro-ofal i gefnogi pobl agored i newid ar draws Sir y Fflint. Bellach mae 12 menter Micro-ofal sy'n darparu gwasanaethau yn Sir y Fflint.<br><br>Mae Double Click yn parhau i ffynnu fel menter gymdeithasol sy'n cynorthwyo pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl i gyflawni eu deilliannau personol. | • Micro-ofal<br>• Iechyd Meddwl |
| **Ynys Môn** | Sefydlu Bwyd Da Môn (https://www.bwyd-da-mon.org.uk/) fel Cwmni Budd Cymunedol i fynd i'r afael â thlodi bwyd. | • Cwmni budd cymunedol (bwyd) |
| **Powys** | Gweithio ar y cyd â Chatalyddion Cymunedol (https://www.communitycatalysts.co.uk/project/powys/) i ddatblygu a chefnogi micro-fentrau | • Micro-fentrau (gofal) |
| **Abertawe** | Peilota cwmnïau cydweithredol, gyda'r nod o brofi ffyrdd newydd o feithrin a thyfu'r rhannau pob dydd o economi Cymru, gan gynnwys cefnogi pobl â lefel isel o anghenion i ddod ynghyd i gynllunio a chaffael eu gwasanaethau eu hunain | • Peilot cwmnïau cydweithredol |

## 7. Eiriolaeth

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Addasodd Tros Gynnal Plant Cymru (https://www.tgpcymru.org.uk/) ei ddull yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gan wneud yn siŵr eu bod yn cadw mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc i'w hatgoffa nhw am y gwasanaeth eiriolaeth, pe bai ei angen arnynt. | • Eiriolaeth ragweithiol |
| **Merthyr Tudful** | Cydgynhyrchu Strategaeth Eiriolaeth i Oedolion a datblygu canllaw ar eiriolaeth i'r staff. Adolygu data a gasglwyd a phenodi Uwch-weithiwr Cymdeithasol i gryfhau cynnwys ystyried eiriolaeth. | • Strategaeth Eiriolaeth (Oedolion) |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau felly lle y nodir bod angen eiriolwr ar rywun, gwneud trefniadau i benodi eiriolwr. | • Ymagwedd seiliedig ar hawliau |
| **Abertawe** | Comisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Mae'r gwasanaeth newydd ar gael i bob cleient cymwys, gan gynnwys gofalwyr di-dâl. | • Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol |

## 8. Integreiddio, cydweithredu a phartneriaeth

### 8.1 Integreiddio, cydweithredu a phartneriaeth

Mae'r angen i ymateb i'r pandemig wedi cryfhau gweithio ar y cyd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae defnyddio technoleg, yr angen am wneud penderfyniadau ar unwaith a datblygiadau ystwyth, wedi cryfhau perthnasoedd â phartneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid.

Mae'r rhan fwyaf o ALlau yn sôn sut mae gwahanol sefydliadau wedi dod ynghyd i sicrhau bod gwybodaeth, cyfarpar diogelu ac, yn gyffredinol, cymorth rhyngddynt eu hunain ac i'r gymuned wedi cael eu darparu'n gyson ac yn gydlynus.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Galluogi ymwelwyr i ddefnyddio canolfannau Dechrau'n Deg i gynnal archwiliadau iechyd rheolaidd o dan Raglen Plentyn Iach Cymru. | • Ymwelwyr iechyd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Ymestyn dulliau amlddisgyblaethol i'r tri rhwydwaith cymunedol rhanbarthol (timau clwstwr).<br><br>Gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr rhanbarthol i gynnig 'Drws Ffrynt Rhanbarthol' | • Clystyrau timau amlddisgyblaethol<br>• Drws ffrynt |
| **Caerffili** | Cymeradwyo Canllawiau Gweithredol Rhanbarthol ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac Oedolion gyda phum ALl arall yng Ngwent.<br><br>Ehangu gwasanaeth Fy Nhîm Cymorth (MyST) i Gasnewydd i gwblhau ei ddatblygiad rhanbarthol.<br><br>Gwreiddio Gwasanaeth Cyfarfod â'r Teulu o fewn y Tîm Cymorth Dwys i helpu teuluoedd i amlygu atebion i broblemau y gallant fod yn eu hwynebu a lleihau nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal. Mae tri Chydlynydd Cyfarfod â'r Teulu wedi cael eu recriwtio i gwmpasu tair prif ardal ddaearyddol y fwrdeistref.<br><br>Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth breswyl a rennir i bobl ifanc mewn argyfwng, gyda Chasnewydd yn arwain datblygiad llety Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig i blant mewn argyfwng (Windmill Farm). | • Canllawiau Gweithredol Rhanbarthol (Oedolion a Phlant)<br>• Fy Nhîm Cymorth<br>• Gwasanaeth cyfarfod â theuluoedd<br>• Darpariaeth breswyl a rennir (pobl ifanc) |
| **Caerdydd** | Gwella mynediad at wasanaethau iechyd i blant a phobl ifanc, gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhan o dimau'r Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar.<br><br>Gwella cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal trwy weithio mewn partneriaeth agos rhwng y Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol a'r Gwasanaeth i Mewn i Waith. | • Iechyd (plant)<br>• Adroddiad Blynyddol<br>• Plant sy'n derbyn gofal |
| **Sir Gaerfyrddin** | Creu tri ysbyty maes gyda strwythur integredig.<br><br>Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru, yn ei Arolygiad yn 2021, am y cyfarfodydd pod i blant "...a chawsant eu canmol yn fawr gan yr holl staff fel dull effeithiol a chefnogol iddyn nhw eu hunain a'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cyfuno dull systemig â dull seiliedig ar gryfderau o werthuso gwaith gyda theuluoedd". | • Ysbytai<br>• Cyfarfodydd Pod (Plant) |
| **Conwy** | Adolygu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, gan adeiladu ar gryfderau a chyflawniadau'r Timau Adnoddau Cymunedol gwreiddiol. Sefydlu rhaglen waith i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer datblygiad a chynaliadwyedd Timau Adnoddau Cymunedol. | • Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol<br>• Lles Meddyliol<br>• Cam-drin Domestig<br>• Seicolegwyr |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Trawsnewid y Tîm Lles Meddyliol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac ethos o 'ddim drws anghywir'.<br>Lansio peilot ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i ymateb i gam-drin domestig lefel is, gan ddarparu cymorth/cyfeiriadau cyflym a thargedig gyda'r nod o atal digwyddiadau rhag gwaethygu/digwydd eto. Mae'r peilot yn cynnwys tîm bach gydag un gweithiwr cymdeithasol ac un Heddwas Cam-drin Domestig Heddlu Gogledd Cymru.<br>Cyflwyno gweminarau a fideos blasu gyda Seicolegwyr Addysg Conwy, ymarferydd cwsg ac ymarferydd magu plant<br>Gweithio'n agos gydag ysgolion a'r Heddlu Cymunedol i ymgysylltu â theuluoedd. | |
| **Sir Ddinbych** | Cysylltu Timau Adnoddau Cymunedol â meddygon teulu, gyda'r bwriad o gyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor i gynorthwyo dinasyddion i gyflawni canlyniadau gwell.<br>Gweithredu'r prosiect Symud gydag Urddas, sy'n anelu at wella gofal un-i-un a gallu cael at yr offer cywir i gyflawni tasgau mor ddiogel â phosibl.<br>Lansio Mind of My Own, sef ap a luniwyd ar y cyd â phlant a phobl ifanc. Mae'r dechnoleg hon yn defnyddio iaith a dyluniad addas i blant i annog pobl ifanc i rannu'u teimladau gan ddefnyddio llechen neu sgrin ffôn.<br>Bwrw ymlaen ag integreiddio llwybr y Blynyddoedd Cynnar<br>1. Allgymorth cyn ysgol<br>2. Dull y Tîm o amgylch y Lleoliad – integreiddio staff cyflwyno Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar yn un tîm cydlynol<br>3. Dull Solihull – mabwysiadu rhaglen cymorth rhianta ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. | • Meddygon teulu<br>• Anableddau<br>• Symud gydag Urddas<br>• Mind on My Own<br>• Llwybr y Blynyddoedd Cynnar |
| **Sir y Fflint** | Gwreiddio Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf mewn Canolbwynt Cymorth Cynnar amlasiantaeth. | • Teuluoedd yn Gyntaf |
| **Gwynedd** | Creu'r Rhaglen i Drawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol i wella integreiddio a chydweithredu, gyda phedair elfen: | • Timau Cymunedol<br>• Gadael yr Ysbyty<br>• Rhannu Gwybodaeth |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | 1. sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol, sy’n cynnwys staff iechyd, gofal, y trydydd sector a’r sector annibynnol<br>2. hwyluso’r weithdrefn ar gyfer Gadael yr Ysbyty<br>3. rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau<br>4. ailddylunio gwasanaethau gofal<br>Cefnogi’r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, i annog cydweithredu effeithiol rhwng sefydliadau statudol a’r trydydd sector.<br>Mae Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd drwy:<br>1. Dreialu cynlluniau peilot gan Barnardo's a’r Bont ar reoli gwrthdaro ymhlith teuluoedd a chefnogi lles plant<br>2. Cydweithredu â Home Start Cymru i ddatblygu prosiect i roi cymorth i dadau dros y ffôn<br>3. Cefnogi Tîm o Amgylch y Teulu sy’n ymyrryd yn gynnar pan ddaw problemau i’r amlwg o fewn teuluoedd, yn wirfoddol, gyda chaniatâd y teulu.<br>Creu prosiect Adlewyrchu, sy’n cynnig cymorth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. | • Grŵp Cyswllt Trydydd Sector<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Blynyddoedd Cynnar<br>• Rhieni ifanc<br>• Prosiect Adlewyrchu |
| **Ynys Môn** | Sefydlu a datblygu Timau Adnoddau Cymunedol ar draws Môn. Ailstrwythuro’r Gwasanaethau Oedolion yn dri pharth Timau Adnoddau Cymunedol dynodedig gan weithio’n rhithwir gydag asiantaethau iechyd a phartner ar symud yr agenda integreiddio yn ei blaen. | • Timau Adnoddau Cymunedol |
| **Merthyr Tudful** | Datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Thros Gynnal i gyflwyno Cyfarfodydd Grŵp Teuluol. Rydym wedi comisiynu Cyfarfodydd Grŵp Teuluol ychwanegol a hyfforddiant i staff fel y gallant gynnal y cyfarfodydd hyn. | • Cyfarfodydd Grŵp Teuluol |
| **Sir Fynwy** | Gweithio ochr yn ochr â meddygon ymgynghorol a meddygon teulu ar welyau neilltuedig i helpu gyda derbyn yn uniongyrchol o’r gymuned. Mae’r tîm integredig yn rhoi cymorth 5 niwrnod o ailalluogi dwys ar y ward i baratoi ar gyfer mynd adref. | • Derbyn a rhyddhau yn integredig o’r ysbyty |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Castell-nedd Port Talbot** | Llunio Ffurflen Atgyfeirio Sengl orffenedig ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau Oedolion. Cydweithredu rhwng trawstoriadau o staff Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.<br><br>Lansio 'Pwynt Cyswllt Unigol' Oedolion a Phlant a fydd yn cael ei gysoni ymhellach fel rhan o ailfodelu Gofal Cymdeithasol Oedolion.<br><br>Gweithio gydag elusen Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant i sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd ysgol heb gyfyngiadau ariannol, gydag elusen Bullies Out i hyrwyddo gwrthfwlio ymhellach gyda phlant a chydweithredu â'r elusen Children's Rights i hyrwyddo hawliau plant ar lefel strategol ar draws y gwasanaeth, ynghyd â chyflwyno gweithdai hyfforddi ar-lein.<br><br>Sefydlu Gweithgor Rhanbarthol gyda Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Abertawe i sicrhau bod dull mwy unedig ar waith o gefnogi teuluoedd. | • Ffurflen atgyfeirio sengl (Plant ac Oedolion)<br>• Pwynt Cyswllt Unigol<br>• Cyfranogiad ysgolion<br>• Gwrthfwlio<br>• Hawliau merched<br>• Ci therapi<br>• Teuluoedd – grŵp rhanbarthol |
| **Casnewydd** | Ymrwymo, ar y cyd â Barnardo's, i wella cydweithrediad a chyfranogiad ar draws y Gwasanaethau Plant, mewn meysydd sy'n cynnwys Rhaglen Gymorth Eiriolaeth a Mentora Rhieni.<br><br>Gweithredu menter Babi a Fi i weithio gyda menywod beichiog y mae perygl y caiff eu baban ei gymryd oddi wrthynt<br><br>Sefydlu panel i ystyried cynlluniau Gwarcheidwaeth Arbennig a Thîm y Teulu a Ffrind i alluogi Gofalwyr Maeth sy'n berthnasau i ddod yn Warcheidwaid Arbennig. | • Eiriolaeth a Mentora Rhieni<br>• Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig<br>• Babi a Fi<br>• Gofalwyr maeth sy'n berthnasau |
| **Sir Benfro** | Sefydlu tîm Gofal Integredig sy'n gweithio i gadw pobl yn eu cartref eu hunain cyhyd â phosibl.<br><br>Sefydlu hyb cyflenwi darparwyr i gynnig un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau darparwyr mewnol a rhai wedi'u comisiynu.<br><br>Lansio strategaeth lleihau 3 blynedd ar gyfer Gwasanaethau Plant, gyda'r nod o atal plant rhag gorfod cael gofal, gan gynorthwyo plant ar yr un pryd i ddychwelyd gartref lle y bo hynny'n ddiogel iddynt. | • Tîm Gofal Integredig<br>• Hyb cyflenwi darparwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal |
| **Powys** | Newid y panel cynhwysiant disgyblion presennol am banel integredig mynediad at wasanaethau gyda phwyslais ar weithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae aelodau'r panel yn sicrhau mai diben y panel yw hyrwyddo mynediad, gan atal plant rhag cyrraedd pwynt o argyfwng gan roi pwysau diangen ar wasanaethau. | • Panel Cynhwysiant Disgyblion<br>• Gweithdrefn frys plant |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Datblygu gweithdrefn frys i Wasanaethau Plant Powys er mwyn gallu cynnal cynadleddau amddiffyn plant, gan eu haddasu'n gyflym i'w defnyddio ar lefel ranbarthol. | |
| **Rhondda Cynon Taf** | Helpodd staff o'r Gwasanaethau Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Ieuenctid yng nghartrefi plant y cyngor, gan weithio gyda phlant a phobl ifanc. Fe wnaeth hyn gryfhau'r berthynas waith rhwng timau ac mae wedi llywio gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol fel rhan o gynllun adfer y gwasanaeth.<br>Dechrau cynllun peilot ar y cyd, sef y model cyflwyno newydd seiliedig ar anghenion ar gyfer gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar, i blant 0 i 7 oed, gan archwilio sut y gellid ad-drefnu gwasanaethau o fewn cyllidebau presennol i gyflawni mwy o integreiddio a phontio effeithiol rhwng gwasanaethau.<br>Lansio'r Rhaglen Iechyd Lles a Chydnerthedd, i gynnig gwell gwasanaethau ymwelwyr iechyd.<br>Datblygu gwefan Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth i sicrhau bod ei bresenoldeb ar-lein mor rhyngweithiol a hygyrch â phosibl. | • Cartrefi plant<br>• Gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar<br>• Rhaglen Iechyd Llesiant a Chydnerthedd<br>• Gwasanaethau Teuluoedd Cydnerth |
| **Abertawe** | Darparu ymateb amlasiantaeth wrth ddrws ffrynt y Gwasanaethau Cymdeithasol, gydag ystod ehangach o weithwyr proffesiynol ar gael yn ddyddiol i gefnogi'u gwybodaeth, cyngor a chymorth.<br>Sefydlu Grŵp Gweithredol Gostwng Plant sy'n Derbyn Gofal yn Ddiogel er mwyn cael dull gwasanaeth gyfan o ddychwelyd plant i'w teuluoedd neu, fel arall, cael sefydlogrwydd a sicrwydd go iawn tan oedolaeth. | • Drws ffrynt amlasiantaethol<br>• Plant sy'n derbyn gofal |
| **Torfaen** | Sefydlu prosiect Gartref yn Gyntaf – Iechyd a Gofal Cymdeithasol – gydag awdurdodau lleol cyfagos i asesu cleifion yn gyflym mewn adrannau argyfwng drws ffrynt 7 niwrnod yr wythnos.<br>Datblygu rhwydweithiau llesiant integredig a chyflwyno peilot mewn meddygfa i roi gwybodaeth a chyngor i bobl sy'n mynd i'r feddygfa.<br>Gwella'i wasanaeth Ffocws ar Deuluoedd a chynyddu capasiti i ddarparu ymyriadau dwys therapiwtig ar sail cryfderau i gynorthwyo teuluoedd, gan ddarparu cymorth a chynhaliaeth cyn ac yn ystod y broses Cynllunio Gofal yn y Llys i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael eu cynnal a bod plant yn cael cymorth priodol yn y lle cywir. | • Gartref yn Gyntaf<br>• Rhwydweithiau llesiant<br>• Gwasanaeth Ffocws ar Deuluoedd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Bro Morgannwg** | Datblygu 'Model Cynghrair', y mae ei bwyslais ar gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion trwy gydweithio gan bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol. | • Model Cynghrair |
| **Wrecsam** | Sefydlu tîm amlddisgyblaethol yn ne Wrecsam sy'n dîm clwstwr dan arweiniad meddygon teulu. Y nod yw cyflogi cydlynwyr gofal ac ymestyn y model yng ngogledd a chanol Wrecsam.<br>Gweithredu Tîm Un Pwynt Mynediad ar gyfer Plant yn "ddrws ffrynt" ar gyfer gwasanaethau plant, gan sicrhau bod penderfyniad yn cael ei wneud ar bob atgyfeiriad o fewn 24 awr o'i gyflwyno.<br>Cyflwyno Kickstart mewn partneriaeth rhwng Castell Ventures (yn cyflwyno Gofal a Chymorth Castell (CCS)) a Thai Wales & West. Mae Kickstart yn darparu llety, gofal a chymorth i blant 16 oed a mwy sydd ag anghenion cymhleth ac mae'n darparu cymorth parhaus yn eu llety eu hunain ar ôl gadael tŷ Kickstart.<br>Llunio partneriaeth â'r Tîm Therapi Aml-systemig, sef ymyrraeth deuluol a chymunedol ddwys i blant a phobl ifanc 11-17 oed, lle y mae perygl i bobl ifanc gael eu lleoli y tu allan i'r cartref, naill ai mewn gofal neu yn y ddalfa. | • Clwstwr dan arweiniad meddygon teulu<br>• Plant – Un Pwynt Mynediad<br>• Kickstart – Llety plant<br>• Tîm Therapi Aml-systemig |

## 8.2. Ceisio adborth a barn gan unigolion

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Ymgynghori â gofalwyr maeth ddwywaith trwy holiaduron yn ystod y pandemig.<br>Ymgynghori â gwasanaethau darparwyr ddwywaith trwy lythyr â phobl sy'n mynd i Augusta, Cwrt Mytton, perthnasau a byw â chymorth. | • Gofalwyr maeth<br>• Darparwyr |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Ymgynghori â gwarcheidwaid arbennig ynghylch cymorth ariannol newydd.<br>Ymgysylltu â phlant â phrofiad o gartrefi plant. | • Gwarcheidwaid<br>• Preswyl – plant |
| **Caerffili** | Cael adborth gan bobl sydd wedi cael cymorth yn y gymuned yn hytrach na chanolfannau dydd, a ddywedodd y byddai'n well ganddynt pe bai'r cymorth hwn yn parhau. | • Cyfleoedd yn ystod y dydd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Caerdydd** | Cynnwys Gofalwyr Ifanc mewn stori Newyddion Channel 4 ar effaith pandemig COVID-19 ar eu bywyd.<br>Cynnwys pobl ifanc yn natblygiad y Strategaeth Diogelu Pobl Ifanc ar y cyd ag Addysg yn ystod y flwyddyn.<br>Cynnwys panel pobl ifanc wrth recriwtio Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant a'r Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau.<br>Ymgynghori â phobl ifanc (Grŵp Bright Sparks) ar yr adolygiad o'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol. Mae'r grŵp hen sefydledig hwn o blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal yn cymryd rhan yn natblygiadau i wasanaethau a pholisi gyda chefnogaeth darparwr eiriolaeth, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS).<br>Rhoi'r ap Mind of My Own ar waith a fydd yn helpu plant i gyfathrebu a galluogi'r ALl i ddal barn plant a phobl ifanc fel rhan o gynllunio gofal.<br>Cynnal gweithdai gyda dinasyddion yn sylfaen i'r Strategaeth Gwasanaethau Oedolion | • Gofalwyr Ifanc<br>• Pobl ifanc – Strategaeth Diogelu<br>• Panel pobl ifanc – recriwtio<br>• Pobl ifanc – Strategaeth Rhianta Plant<br>• Mind of My Own<br>• Dinasyddion – Strategaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **Conwy** | Gofyn i ofalwyr maeth rannu eu profiadau, trwy arolwg electronig.<br>Dosbarthu arolwg i bobl ifanc yn ein gofal, gan ofyn sut yr hoffent wario Grant Dydd Gŵyl Dewi. Gofynnont am sefydlu panel i graffu ar geisiadau am y grant ac, o ganlyniad, crëwyd panel wythnosol. Mae'r bobl ifanc ar y panel wedi cynnig cipolwg go iawn i'r prosesau meddwl wrth wraidd ceisiadau a chynorthwyont yr ALl i ddeall ceisiadau o'u safbwynt nhw.<br>Cynnwys gweithiwr o'r Tîm Ymyriadau Teuluol yn y Tîm Asesu a Chymorth. Maent mewn lle da i ateb galwadau gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, cynnal sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' lle y bo'n briodol a chynnal darnau byr, targedig o waith i ymyrryd yn gynnar ac atal anawsterau rhag gwaethygu.<br>Lansio arolwg sy'n mynd rhagddo gyda theuluoedd eleni, yn seiliedig ar Safonau Gwasanaeth yr ALl. | • Gofalwyr Maeth<br>• Pobl ifanc – Grant Dydd Gŵyl Dewi<br>• Tîm Ymyriadau Teuluol<br>• Teuluoedd |
| **Sir Ddinbych** | Comisiynu Age Connects i gynnal digwyddiad ymgysylltu yn edrych ar yr awydd am gynllun i gefnogi anghenion iechyd, gofal cymdeithasol, tai a llesiant pobl hŷn yn ardal Corwen. Yna, comisiynom Practice Solutions i gynnal digwyddiad ymgysylltu yn ardal Dinbych, ar yr un thema. | • Pobl hŷn<br>• Cymuned Ymarfer<br>• Rhwydweithiau Ymarferwyr Ymgysylltu |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cynnal cyfarfodydd Cymuned Ymarfer Cyfeillgar i Oedran, wedi'u comisiynu gan swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn gydag amrywiaeth o ddinasyddion/gweithwyr yn bresennol.<br>Dinasyddion yn ein cynrychioli yn rhwydweithiau chwarterol Ymarferwyr Ymgysylltu.<br>Ymarferwyr a dinasyddion yn ein cynrychioli yng nghyfarfodydd chwarterol Heneiddio'n Dda.<br>Cydgynhyrchu'r gwaith o roi cyfarfod chwarterol y Rhwydwaith Llesiant ar waith, gan gynnwys dinasyddion yn ogystal ag ymarferwyr. | • Heneiddio'n Dda<br>• Cyfarfodydd y rhwydwaith llesiant |
| **Sir y Fflint** | Cynnal gweithdai a thrafodaethau gyda Lleisiau Ifanc yn Siarad Allan (YVSO) – grŵp o bobl ifanc 13 i 18 oed sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal – ar iechyd a pherthnasoedd, a modelau maethu.<br>Gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr a NEWCIS i ddatblygu map rhyngweithiol a chanllaw i ddefnyddwyr. Mae'r map yn dangos lleoliadau Cymunedau Dementia Gyfeillgar, caffis cof a sefydliadau a gwasanaethau sy'n rhan o raglen busnesau lleol sy'n ystyriol o ddementia y mae NEWCIS yn ei rhedeg.<br>Cynnwys Gofalwyr Ifanc yn natblygiad manyleb gwasanaeth newydd i helpu gyda chomisiynu gwasanaeth newydd i Ofalwyr Ifanc. Roedd pedwar o ofalwyr ifanc hefyd wedi cymryd rhan yn y broses gaffael.<br>Cynnwys Teuluoedd unigolion ag Anableddau Dysgu wrth gomisiynu gwasanaeth byw â chymorth newydd ar gyfer eu hanwyliaid. Cytunodd dau deulu i fod yn rhan o'r broses gomisiynu.<br>Gwahodd teuluoedd ac unigolion i weld y lle a dweud eu dweud am sut y dylid datblygu'r safle cyn symud safle cyfleoedd gwaith Castle Connections i'r adeilad newydd. | • Lleisiau Ifanc<br>• Dementia – map rhyngweithiol<br>• Gofalwyr Ifanc – manyleb gwasanaeth newydd<br>• Anableddau Dysgu – Byw â chymorth<br>• Anableddau Dysgu – Cyfleoedd gwaith |
| **Gwynedd** | Gweithio gyda Phanel Trigolion i sicrhau cynrychiolaeth o blith trawstoriad o drigolion Gwynedd, a bod eu llais yn ganolog, wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol at y dyfodol.<br>Cynnwys plentyn sydd wedi cael profiad o ofal yn aelod o Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor, gydag aelodau'r Panel yn cael cyfle i glywed barn ac am brofiadau plant sy'n derbyn gofal. | • Panel Trigolion<br>• Plant sy'n derbyn gofal – Panel Rhieni |
| **Ynys Môn** | Creu holiaduron ar-lein i bobl sy'n derbyn cymorth ac i staff sy'n gweithio gyda'r darparwyr Grant Cymorth Tai, yr Adran Tai, sefydliadau trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol. Diben yr holiadur | • Grant Cymorth Tai – dinasyddion a'r cyfnod clo<br>• Voices from Care |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | oedd rhoi cyfle i bobl roi adborth ar eu profiadau o gyfyngiadau'r cyfnod clo; yr un oedd yn fwyaf heriol iddynt ac unrhyw brofiadau cadarnhaol a gawsant.<br>Cynyddu aelodau'r grŵp lleol sy'n gweithio gyda Voices from Care. | |
| **Merthyr Tudful** | Datblygu Strategaeth y Gwasanaethau Plant a chynnal digwyddiadau yn arddull gweithdai gydag aelodau etholedig i rannu blociau adeiladu'r Strategaeth a sut y byddwn yn cynorthwyo teuluoedd a phobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau.<br>Parhau i ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal; un enghraifft benodol yw eu cynnwys mewn llywio'r model gofal ar gyfer prosiect ta i bobl 16 i 25 oed. | • Strategaeth Plant |
| **Sir Fynwy** | Sicrhau, trwy waith y grŵp corfforaethol magu plant, fod pobl ifanc mewn gofal yn cael cyfle i ddweud wrthym, (yn ddi-flewyn-ar-dafod), sut y gallwn ni wella'r hyn rydym ni'n ei wneud.<br>Cynnwys gofalwyr wrth weithredu a chydlynu'r Strategaeth Gofalwyr i lywio a chynllunio gwasanaethau.<br>Arwain ar weithredu 'My Mates' - grŵp o unigolion sy'n hunangyfeirio ac yn llywio'r ffordd rydym ni'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu - ar draws Gwent gyfan.<br>Ymgynghori ag ymadawyr gofal am ehangu cymorth ac opsiynau llety i bobl ifanc<br>Aildendro Gwasanaethau Cymorth Anabledd ar y cyd â rhieni a phobl ifanc. Mae hyn wedi arwain at gomisiynu partneriaeth hyblyg ac ymatebol. | • Grŵp Corfforaethol Magu Plant<br>• Gofalwyr – Strategaeth Gofalwyr<br>• My Mates – Cymorth hunan-gyfeiriedig i bobl ag anableddau dysgu<br>• Ymadawyr gofal<br>• Pobl ifanc – Gwasanaethau Anabledd |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Ailwampio gwefan y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau ei bod hi'n hawdd cael at ddeunydd sy'n gyfredol. Datblygom blatfform digidol ar-lein i ddal llais y plentyn, gofalwyr a rhieni. Lluniwyd deunydd ymgynghori ar-lein ar gyfer partneriaid mewnol ac allanol i gynorthwyo â datblygiad parhaus y ddarpariaeth gwasanaethau.<br>Lansio ymgynghoriadau blynyddol newydd gyda phlant a theuluoedd am wasanaethau egwyliau byr i ddatblygu a gwella'r modelau gwasanaeth hyn yn barhaus.<br>Datblygu Datganiad mewnol o Fwriad i Gydgynhyrchu gyda'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu Rhanbarthol.<br>Cynnal gweithdai ymgysylltu â theuluoedd i ddatblygu gwasanaethau newydd y Gronfa Gofal Integredig. | • Gwefan<br>• Egwyliau byr<br>• Cydgynhyrchu<br>• Cronfa Gofal Integredig<br>• Plant sy'n derbyn gofal |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Ceisio barn plant a phobl ifanc fel rhan o'r Asesiad Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Archwiliad Cyswllt Teulu. | |
| **Casnewydd** | Ceisio barn dinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau i lywio prosesau monitro contractau.<br>Sicrhau ymgysylltiad/ymwneud dinasyddion â'r broses gomisiynu | • Monitro contractau<br>• Proses gomisiynu |
| **Sir Benfro** | Parhau i weithio ar wneud gwybodaeth yn haws ei deall. Cynyddu'r gallu i gynhyrchu llenyddiaeth hawdd ei darllen ac ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bawb.<br>Datblygu dull ymgynghori ac adborth newydd ar gyfer y Ddarpariaeth Gofal Seibiant i Blant – Holly House – i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hannog i lywio'r gwasanaeth yn y dyfodol.<br>Ymgynghori â gofalwyr maeth trwy holiadur ysgrifenedig a sesiwn grŵp ffocws.<br>Cynorthwyo â ffurfio grŵp newydd i ymadawyr gofal, gyda chyn ymadawr gofal yn cynrychioli'r grŵp ar y Fforwm Rhianta Corfforaethol.<br>Creu Fforwm Byw gyda Dementia Sir Benfro.<br>Cynnal ymgynghoriad anffurfiol i lywio dyfodol yr Hyb Cymunedol. Bydd gwaith yn dechrau ar achos busnes cynaliadwy.<br>Datblygu arolwg ar-lein i geisio adborth gan ofalwyr di-dâl, neu weithwyr proffesiynol/sefydliadau sy'n gweithio gyda Gofalwyr di-dâl. Gofynnwyd i ofalwyr pa gymorth sy'n bwysig iddynt. | • Adroddiad Blynyddol<br>• Darllen hawdd<br>• Gofal seibiant i blant<br>• Gofalwyr maeth<br>• Ymadawyr gofal<br>• Fforwm dementia<br>• Hyb Cymunedol<br>• Gofalwyr |
| **Powys** | Datblygu Tîm Cyfranogiad o fewn y strwythur sy'n cynnwys Swyddog Cyfranogiad a Phrentis Cyfranogiad.<br>Mae presenoldeb pobl ifanc yn y Bwrdd Diogelu Iau yn dda.<br>Dechrau Bwrdd Dechrau Da Iau i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd Dechrau Da yn clywed lleisiau pobl ifanc.<br>Datblygu a gweithredu offeryn 'pellter a deithiwyd'. Mae pobl ifanc yn ateb cyfres o gwestiynau cyn dechrau ar eu hymyriad ac yna'n eu hateb eto ar y diwedd. | • Tîm cyfranogiad plant<br>• Bwrdd Diogelu Iau<br>• Bwrdd Dechrau Da<br>• Offeryn pellter a deithiwyd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Rhondda Cynon Taf** | Siarad â phobl ag anabledd dysgu, eu teulu a gofalwyr, ynghyd â staff gwaith cymdeithasol a darparwyr gofal, i ddysgu o'u profiadau o'r pandemig. Archwilio'u safbwyntiau am ddarparu gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol ac, yn benodol, cyfleoedd dydd.<br><br>Datblygu arolwg "Rhianta yn ystod cyfnod Covid-19" i sefydlu pa gymorth y gall fod ei angen ar deuluoedd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig. Dosbarthwyd yr arolwg yn helaeth trwy sefydliadau partner a phlatfformau digidol. Dylanwadodd y canfyddiadau ar waith i ailgomisiynu gwasanaethau rhiant o Fedi 2021 ymlaen.<br><br>Darparu cyfleoedd trwy'r Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ieuenctid, i bobl ifanc gael dweud eu dweud yn ystod ymgynghoriad ffurfiol ym Mehefin 2020 a wnaeth ddal barn pobl ifanc am y cymorth a gynigiodd y gwasanaeth trwy gydol y cyfnod clo.<br><br>Cynnal ymgynghoriad ar-lein ac all-lein gyda thros 1,000 o bobl (n=1,044). Gofynnwyd i ymatebwyr ddatgan pa wasanaethau ddylai gael eu hamddiffyn rhag cynnydd mewn ffioedd a chostau yn 2021-22, yn eu tyb nhw. Hefyd rhoddwyd rhestr o wasanaethu'r Cyngor i ymatebwyr a gofynnwyd iddynt ddewis pa wasanaethau ddylai gael eu hamddiffyn a'u blaenoriaethu o ran adnoddau ychwanegol yn 2021-22.<br><br>Archwilio datblygiad ap ffôn symudol i gysylltu timau gofal cymdeithasol a phobl ifanc 16 oed a hŷn sydd wedi cael profiad o ofal. Cymerodd staff gofal cymdeithasol a phobl ifanc â phrofiad o ofal ran mewn cyfweliadau a thrafodaethau i lywio adroddiad ar gyfer y rhanbarth.<br><br>Cynnal ymgysylltu anffurfiol â phobl ifanc trwy sesiynau ar y stryd ar draws y fwrdeistref sirol, gan ofyn iddynt pa gyfleoedd, darpariaeth a gweithgareddau yr hoffent eu gweld yn eu hardal leol ar ôl llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo. Mae'r trafodaethau wedi llywio cynllun adfer y gwasanaeth am y flwyddyn i ddod.<br><br>Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ar ddyfodol yr 11 cartref gofal preswyl y mae'r Cyngor yn eu rhedeg. O ganlyniad i'r adborth, penderfynom gadw dau yn fwy o gartrefi ar agor nag y bwriadom. | • Anableddau Dysgu<br>• Rhianta yn ystod cyfnod Covid-19<br>• Pobl ifanc<br>• Cost gwasanaethau<br>• Ap ffôn symudol gyda phobl ifanc<br>• Darpariaeth pobl ifanc<br>• Cartrefi preswyl |
| **Abertawe** | Datblygu Pecyn Cydgynhyrchu newydd i'w ddefnyddio ar draws y bartneriaeth, gan gynnwys fframwaith, pecyn cymorth a siarter ar gyfer cyd-gynhyrchu rhanbarthol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Adfer ym mis Ionawr 2021. | • Pecyn Cydgynhyrchu<br>• Prosiect bywyd gorau |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Ar y Cyd â'r Bwrdd Magu Plant Corfforaethol a Phlant a Phobl Ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, beth yw meysydd allweddol bywyd gorau, y prif feysydd i'w datblygu ar gyfer pob maes a phwy fydd yn atebol am wella gwasanaethau o gwmpas y themâu hynny. | |
| **Torfaen** | Cysylltu â phobl hŷn yn y gymuned i ddeall yn well beth fyddai'n eu helpu i leihau teimladau unigrwydd. Cyhoeddi'r Strategaeth Unigrwydd ym mis Chwefror 2020.<br>Cael dealltwriaeth o beth yw anghenion tai'r fwrdeistref a'r rhwystrau a'r heriau i'r cyhoedd trwy ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a digwyddiadau i randdeiliaid. Gwnaed newidiadau sylweddol i ffrydiau cyllido Tai yn 2020/21. Mae gwaith wedi parhau â Blwyddyn 2 Strategaeth Ddigartrefedd Gwent. | • Pobl hŷn – Strategaeth Unigrwydd<br>• Anghenion tai – Strategaeth ddigartrefedd |
| **Bro Morgannwg** | Ymgysylltu â lletywr, pobl sy'n defnyddio Lleoliadau Oedolion a'u teuluoedd i werthuso'u profiad o'r gwasanaeth i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol.<br>Archwilio lefelau boddhad dinasyddion ag ystod y gwasanaeth dydd a'u profiad yn ystod y pandemig a safbwyntiau dinasyddion am ailagor gwasanaethau dydd.<br>Asesu boddhad dinasyddion â'u hymwneud â chynllunio gofal, cysylltu â gweithwyr cymdeithasol yn Nhîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro (Newlands).<br>Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf – ymgysylltu â theuluoedd i asesu lefelau boddhad ag ansawdd y cyngor cychwynnol, y cymorth gan staff yn ogystal ag ansawdd y cyfathrebu.<br>Ymgysylltu â rhieni i geisio'u barn am y cymorth a gawsant ar gyfer pontio a'u profiad o'r cymorth gan y tîm Iechyd Plant ac Anabledd i sefydlu Taliadau Uniongyrchol.<br>Gofyn barn trigolion, perthnasoedd a staff am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarparodd ein cartrefi gofal preswyl<br>Cynnal arolwg o ofalwyr maeth i sefydlu eu boddhad â'r cymorth, yr hyfforddiant a'r wybodaeth a gawsant i gyflawni eu rôl.<br>Gofyn i rieni sy'n defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg am eu boddhad â phob agwedd ar y gwasanaeth a'r cymorth a gawsant yn ystod y pandemig. | • Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion<br>• Gwasanaeth Dydd<br>• Tîm Alcohol a Chyffuriau<br>• Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Iechyd Plant ac Anabledd<br>• Gofal Preswyl<br>• Gwasanaeth Maethu<br>• Dechrau'n Deg |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Wrecsam** | Cydgynhyrchu – creu'r grŵp 'gwneud sŵn' i gynnig cyfleoedd ymgysylltu amrywiol, gan ddefnyddio amrywiaeth o lefelau a dulliau er mwyn canolbwyntio'n arbennig ar y bobl hynny y mae ymgysylltiad grŵp yn her iddynt.<br>Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru gan gynnal dau ddigwyddiad cyd-gynhyrchu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o helpu unigolion a theuluoedd ag anghenion cymedrol i isel. | • Cydgynhyrchu<br>• Eiriolaeth |

## 9. Cyflogaeth ac addysg

### 9.1 Cyflogaeth

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir y Fflint** | Cynlluniau Grant Cyfalaf Mawr Darpariaeth Gofal Plant – i wella'r ddarpariaeth gofal plant gerllaw neu ar safleoedd ysgol.<br>Cynlluniau Grant Cyfalaf Bach Darpariaeth Gofal Plant – i ddarparu cymorth cyfalaf i leoliadau gofal plant. | • Gofal plant |
| **Gwynedd** | Gwneud ymchwil i faterion fel tlodi tanwydd a diweithdra ymhlith pobl ifanc.<br>Sefydlu Tasglu Diweithdra i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn lefelau diweithdra yn y sir o ganlyniad i'r pandemig. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr, yn enwedig o fewn y diwydiant twristiaeth, i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth.<br>Cynigiodd Blaentroed, ar y cyd â sefydliad Dolan a Grŵp Llandrillo Menai, gyfnod o waith a hyfforddiant i bobl ifanc ddi-waith.<br>Sefydlu Grŵp Prosiect Cyfleoedd Gwaith – gan flaenoriaethu cyfleoedd hyfforddiant a gwaith i oedolion ag anableddau dysgu. | • Ymchwil pobl ifanc.<br>• Tasglu Diweithdra<br>• Pobl ifanc<br>• Anableddau dysgu |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | Lansio Prosiect Adtrac – bydd yn canolbwyntio ar helpu pobl ifanc i gymryd y camau cyntaf oll tuag at addysg bellach neu waith h.y. y rhai nad ydynt yn barod eto i fynd i'r Coleg, nad ydynt ar Raglenni Cyflogadwyedd neu nad ydynt yn barod i fynd i Waith. | • Pobl ifanc |
| **Merthyr Tudful** | Lansio dogfen bolisi 'Cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn ein gofal neu sy'n gadael ein gofal'. Mae'n amlinellu ein targedau dros y 3 blynedd nesaf fel rhan o'n Prosiect Llwybr at Waith.<br>Datblygu rôl Swyddog Mentora a Chymorth Cyflogaeth i gefnogi pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. | • Cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn ein polisi gofal<br>• Mentora a Chymorth |
| **Sir Benfro** | Gweithio gyda Norman Industries a Workways i helpu pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor i gael gafael ar waith â thâl. Y cyfle cyflogaeth cyntaf oedd cyflogi Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu i weithio gyda swyddogion Cyngor Sir Penfro a phartneriaid yn y trydydd sector i ddatblygu a gweithredu'r camau gweithredu yn unol â'r strategaeth. | • Anableddau dysgu |
| **Powys** | Chwarae rhan weithgar yn y ffair swyddi rithwir a gynhaliodd y Ganolfan Waith a thargedu pobl ar ffyrlo, pobl ddi-waith neu bobl a oedd mewn perygl o golli eu swydd oherwydd pandemig COVID-19.<br>Parhau i archwilio opsiynau cymorth cyflogaeth gan ddefnyddio adborth gan unigolion sy'n defnyddio'r Gwasanaeth ar hyn o bryd a phobl a allai ei ddefnyddio yn y dyfodol trwy "sgyrsiau beth sy'n bwysig".<br>Annog pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal i wneud cais am swydd cynghorydd olrhain cysylltiadau Cyngor Sir Powys. Llwyddodd pump o'n pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal i gael cyfweliad a chynigiwyd swyddi i ddau ohonynt. | • Ffair swyddi rithwir<br>• Comisiynu<br>• Pobl ifanc |

### 9.2 Addysg

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Sefydlu'r Panel Dysgwyr Diamddiffyn fel partneriaeth rhwng gwasanaethau mewn Addysg a Gofal Cymdeithasol. Esblygodd yn grŵp amlasiantaethol effeithiol i rannu gwybodaeth, nodi lleoedd | • Panel Dysgwyr Diamddiffyn<br>• Panel amlasiantaethol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | ysgol a gofal plant i ddysgwyr, ac opsiynau yn lle taliadau prydau ysgol am ddim i'r banc i deuluoedd, lle bo'r angen.<br><br>Cynnal panel ar wahân rhwng y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Addysg, Anableddau Dysgu Plant a Phobl Ifanc (Iechyd) a Gwasanaeth Anableddau'r Adran Gofal Cymdeithasol. Fel yr uchod, defnyddiodd y panel amlasiantaethol y platfform hwn i rannu gwybodaeth, nodi lleoedd ysgol i ddysgwyr a chydweithio i ddatblygu pecynnau pwrpasol i unigolion ag anghenion.<br><br>Gweithio trwy Swyddog Addysg y Wobr Cyflawniad Pobl Ifanc i gydweithio â'r Gwasanaeth Ieuenctid i lansio'r wobr ar-lein. Nod y wobr yw gwella sgiliau a hunanhyder pobl ifanc. | • Gwobr Cyflawniad Pobl Ifanc |
| **Gwynedd** | Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc. Bydd y ffocws ar y grŵp 5 i 16 oed trwy gynorthwyo ysgolion i weithredu'r Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. | • Rhaglen Cyflymu'r Dysgu |
| **Merthyr Tudful** | Gweithio gyda chydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Addysg i baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau newydd i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'u cefnogi. Sefydlwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r trydydd sector i wella ystod y cymorth cymunedol sydd ar gael. | • Anghenion Dysgu Ychwanegol |

## 10. Diogelu

### 10.1 Diogelu

Cyflwynwyd Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru i blant ac oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn 2019, felly i raddau helaeth, mae pob ALI yn sôn yn eu hadroddiad am waith a wnaed i weithredu'r newidiadau a ddaeth yn sgil y gweithdrefnau newydd..

Mae pob ALI yng Nghymru wedi dechrau paratoi ar gyfer gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Ailstrwythuro Gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd o fewn y Polisi gan ganiatáu am ddatblygu hybiau diogelu, ymyrraeth gynnar ac atal lleol, amlasiantaethol, pob oed. Rhoddwyd hybiau peilot ar waith yng Nghasnewydd a Blaenau Gwent. | • Hybiau amlasiantaethol |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Adolygu'r polisi Diogelu Corfforaethol a gorffen gweithredu fframwaith perfformiad MASH gydag asiantaethau partner. | • Perfformiad |
| **Caerffili** | Cyflwyno Offeryn Hunanasesu Diogelu ar gyfer meysydd Gwasanaeth. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol ag Adolygiad Swyddfa Cymru o drefniadau Diogelu Corfforaethol. | • Hunanasesiad |
| **Caerdydd** | Diweddaru'r Strategaeth Camfanteisio, gan ymgorffori gweithwyr arbenigol cam-fanteisio mewn timau ardal a gwella prosesau llywodraethu a goruchwylio gwaith cam-fanteisio wrth symud ymlaen.<br>Gwell trefniadau diogelu plant a theuluoedd trwy gytuno i benodi gweithwyr arbenigol.<br>Gwella diogelwch oedolion mewn perygl ledled Caerdydd trwy wella prosesau a gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch i'r rheiny sydd am adrodd am bryder.<br>Gwella'r ymateb i gyfrifoldebau diogelu corfforaethol trwy gryfhau rôl y Swyddog Arweiniol Diogelu Dynodedig ac Aelodau trwy adnewyddu a darparu hyfforddiant diogelu. | • Strategaeth Camfanteisio<br>• Gweithwyr arbenigol<br>• Proses<br>• Hyfforddiant |
| **Sir Gaerfyrddin** | Cyfrannu at y Grŵp Ymateb Rhanbarthol ac Amlasiantaethol i Covid, a gyfarfu'n wythnosol, i gael sicrwydd ynghylch ymatebion diogelu yn ystod y pandemig.<br>Parhau i weithio yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Cymru Gyfan ac arwain nifer o ddatblygiadau ar draws y rhanbarth, gan gynnwys dogfen a hyfforddiant *Covid Threshold*. | • Ymateb Rhanbarthol ac Amlasiantaethol i Covid<br>• *Covid Threshold* |
| **Conwy** | Diweddaru dogfennau, templedi, prosesau a chynnal hyfforddiant i wreiddio'r gweithdrefnau diogelu oedolion newydd.<br>Peilota'r asesiad risg hunan-esgeulustod a chelcio gydag unigolion sy'n cyflwyno dangosyddion hunan-esgeulustod neu gelcio. Hefyd, mae cofrestr hunan-esgeulustod, y gall pob rheolwr fynd ato.<br>Gweithio gyda Heddwas ar secondiad i lunio rhaglen i gefnogi plant â'u hymwneud â throseddu a cham-fanteisio. | • Adolygu<br>• Hunan-esgeulustod, celcio<br>• Cofrestr hunan-esgeulustod<br>• Camfanteisio – Plant<br>• Disgyblion agored i niwed |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cynnal cyfarfodydd rheolaidd am blant agored i niwed, gyda Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol yn bresennol, i drafod yr angen am leoliadau ysgol i ddisgyblion agored i niwed neu'r plant hynny lle y mae perygl y bydd y lleoliad yn methu.<br><br>Cynnal fforwm diogelu plant bob deufis, i hyrwyddo a rhannu negeseuon o ymarfer, gan gynnwys ymchwil, adolygiadau Ymarfer Plant a diweddariadau am Weithdrefnau Diogelu 2019 Cymru.<br><br>Cynnal Cyfarfod Diogelu Asiantaethau ar y Cyd â phartneriaid i drafod unrhyw broblemau ymarfer ac adolygu unrhyw sefyllfaoedd y mae angen eu diwygio.<br><br>Peilota Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) – cyfuno swyddogion o'r Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu, y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig, Iechyd Meddwl Oedolion a Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu un man ar gyfer sgrinio a phrosesu'r holl adroddiadau diogelu ar draws Conwy.<br><br>Buddsoddi mewn cwrs hyfforddiant Cam-drin Plant yn Rhywiol gyda phartneriaid amlasiantaethol eraill lle y mae cymysgedd o ymarferwyr a rheolwyr wedi cael eu hyfforddi'n Arweinwyr Ymarfer. | • Fforwm Diogelu Plant<br>• Cyfarfod Diogelu Asiantaethau ar y Cyd<br>• Peilot Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol<br>• Cam-drin Plant yn Rhywiol |
| **Sir y Fflint** | Creu'r panel Coll Camfanteisio Masnachu, yn fforwm i ddwyn gweithwyr proffesiynol ynghyd neu i uwchgyfeirio i asiantaethau perthnasol.<br><br>Cael achrediad Rhuban Gwyn – mae'r Cyngor yn cydnabod bod pob ffurf ar drais gwrywaidd yn cael effaith negyddol ar les staff, yn ogystal â'u diogelwch, a'r awydd i hyrwyddo diwylliant o barch tuag at bawb yn y gweithle, trwy wella diogelwch a morâl.<br><br>Sefydlu Fforwm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), gyda gweithwyr rheng flaen o bob rhan o'r cyngor, ynghyd â phartneriaid o'r sector statudol a'r trydydd sector, yn bresennol. Mae'r fforwm yn cyfannu at y grŵp llywio MARAC rhanbarthol i sicrhau darpariaeth fwy cyson ar draws y gogledd. | • Panel Coll Camfanteisio Masnachu<br>• Achrediad Rhuban Gwyn<br>• Fforwm VAWDASV |
| **Gwynedd** | Annog holl aelodau'r Cyngor a staff i gwblhau hyfforddiant trais yn y cartref.<br><br>Sefydlu Tîm Emrallt, gyda'r nod o ostwng nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu cyfeirio i wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gam-drin, trwy nifer o ymyriadau amserol a phriodol, a phecynnau hyfforddiant arbenigol gan Brook, yr NSPCC ac AIM. | • Trais Domestig<br>• Ymddygiad rhywiol niweidiol<br>• Caethwasiaeth Fodern |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor 2020/21. | |
| **Ynys Môn** | Datblygu ymgyrch “Llygaid a Chlustiau” mewn ymateb i’r gostyngiad yn lefel yr adroddiadau diogelu yn ystod camau cychwynnol y cyfyngiadau. Canolbwyntiodd ar annog y cyhoedd i fod yn effro i gam-drin plant ac oedolion mewn perygl, a rhoi gwybod amdano. | • Ymgyrch llygaid a chlustiau |
| **Merthyr Tudful** | Gweithio’n rhanbarthol i wella cysondeb y data sy’n cael ei adrodd i Grwpiau Ansawdd a Pherfformiad Oedolion a Phlant er mwyn gallu llunio cymariaethau rhanbarthol clir a chyson.<br>Sefydlu Grŵp Adolygu Hunanladdiadau rhanbarthol sydd bellach yn grŵp gweithredol y Bwrdd Diogelu.<br>Arwain gwaith sydd wedi arwain at bolisïau a phrotocolau diogelu’n dod ar waith yn weithredol ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd.<br>Arwain gwaith manwl gyda gwasanaethau Bydwreigiaeth rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i ddatblygu gwybodaeth hygyrch i fenywod beichiog pan fydd pryderon am ddiogelu.<br>Ariannu gwaith cydlynu ar y cyd â RhCT i sicrhau bod offer diogelwch a larymau’n cael eu darparu i bobl sy’n dioddef cam-drin domestig, lle bo’u hangen arnynt, a’u bod yn cael y cymorth tai i fyw yn eu cartref eu hun yn hytrach na throi at loches. | • Rhanbartholi data<br>• Grŵp Adolygu Hunanladdiadau<br>• Polisïau a gweithdrefnau<br>• Menywod beichiog<br>• Offer diogelwch |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Llunio ffurflen Atgyfeirio Sengl yn derfynol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion.<br>Cyflwyno Polisi Hunan-esgeuluso trwy’r Bwrdd Diogelu ac mae gwaith pellach yn parhau i sicrhau ymateb trylwyr a chyson i bob adroddiad diogelu. Hefyd, treialu offeryn gwneud penderfyniadau ar draws Gwasanaethau Oedolion.<br>Comisiynu Gwasanaeth Cynadledda Grŵp Teuluol.<br>Peilota pecyn cymorth i gefnogi a chryfhau’r ymateb i niwed y tu allan i gartref y teulu. | • Atgyfeirio sengl<br>• Polisi hunan-esgeuluso<br>• Gwasanaeth Cynadledda Grŵp Teuluol<br>• Camfanteisio |
| **Casnewydd** | Gweithredu’r Tîm Ymateb Cyflym fel gwasanaeth ymyrraeth gynnar newydd a gynigir i deuluoedd mewn argyfwng o ganlyniad i atgyfeiriad i’r ganolfan diogelu. | • Tîm Ymateb Cyflym<br>• Pecyn Cymorth Camfanteisio<br>• Canolfan Diogelu<br>• Hunanasesu |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Arwain at greu Pecyn Cymorth a Fframwaith Ymarfer Camfanteisio i nodi ac ymateb i risg. Cafodd ein model ei dreialu ar draws y rhanbarth yn 20/21 ac mae wedi'i fabwysiadu'n fodel arfer da yn rhanbarthol a'i gymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Gwent erbyn hyn.<br><br>Mae'r ganolfan diogelu a'i llwyddiant wedi arwain at fabwysiadu'r model ar draws y rhanbarth ac mae'r Heddlu wedi ailstrwythuro'u hadnoddau i gyfrif am y ffordd hon o weithio.<br><br>Cwblhau archwiliad hunanasesu diogelwch ar draws y cyngor.<br><br>Yn gartref i'r Bartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ranbarthol ac yn aelodau gweithgar o'r Bwrdd. Mae Tîm VAWDASV yn gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae pob gweithiwr yn cwblhau e-Ddysgu sylfaenol VAWDASV lefel 3 fel rhan o broses sefydlu Cyngor Dinas Casnewydd. | • Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **Sir Benfro** | Cyfrannu at ddatblygu polisïau a phrotocolau Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWSB), gan gynnwys Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a dogfen Trothwy diogelu oedolion. Arwain datblygiad y strategaeth ranbarthol Cynadledda Amddiffyn Plant ar ddechrau pandemig Covid-19.<br><br>Arwain datblygu a chyflwyno'r hyfforddiant rhanbarthol ar Weithdrefnau Diogelu Cymru gyfan ar gyfer MAWWSB.<br><br>Aelodaeth ac agenda oedolion a phlant amlasiantaethol cyfunol yn Grŵp Gweithredol Lleol Sir Benfro.<br><br>Datblygu Grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed. Comisiynodd y grŵp gwasanaethau plant ac oedolion amlasiantaethol hwn sefydliad elusennol i gynnal Cynadledda Grŵp Teuluol ar ei ran. | • Protocolau MAWWSB<br>• Cynadledda Amddiffyn Plant<br>• Diogelu<br>• Hyfforddiant gweithdrefnau<br>• Aelodaeth oedolion a phlant amlasiantaethol<br>• Grŵp atal hunanladdiad a hunan-niwed<br>• Cynadledda Grŵp Teuluol |
| **Powys** | Creu tîm gweithredol newydd dan arweiniad Rheolwr Ecsbloetio Plant yn arbennig i atal, amddiffyn a chefnogi plant rhag pob math o ecsbloetio plant.<br><br>Datblygu rhaglen llysgenhadon ecsbloetio plant ym mhob ysgol gyfun ym Mhowys i hyrwyddo ymwybyddiaeth a chychwyn sgyrsiau mewn grŵp cymheiriaid.<br><br>Datblygu prosiect cam-drin domestig a chynnal ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrch taflenni ar draws y Sir. | • Ecsbloetio Plant<br>• Cam-drin Domestig |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Rhondda Cynon Taf** | Cynnal archwiliad yn y gwasanaethau plant i edrych ar yr ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a chadernid gweithdrefnau a phrosesau hunanwerthuso. | • Archwiliadau plant |
| **Abertawe** | Cynnal adolygiad llawn o drefniadau diogelu, gan amlinellu cynigion am dîm diogelu pwrpasol newydd.<br>Arwain cynllun peilot ar risg diogelu cyd-destunol yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid.<br>Lansio cynnig cymorth cynnar wedi'i ailstrwythuro, gan gynnwys cynrychiolwyr o blith Heddlu De Cymru, fel rhan o raglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd. | • Adolygiad diogelu<br>• Risg Diogelu Cyd-destunol<br>• Cymorth cynnar |
| **Torfaen** | Gweithredu'r Hwb Cymorth a Diogelu Amlasiantaeth (MASSH).<br>Cyflwyno rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) i'r gymuned ehangach. | • MASSH<br>• CSE |
| **Wrecsam** | Cynnal adolygiad llawn o'n proses Ar goll, cael eu cam-fanteisio a'u masnachu (MET) gyda phartneriaid.<br>Diwygio prosesau Gwasanaethau Plant i sicrhau bod cyfarfodydd risg uchel yn cynnwys cynrychiolwyr asiantaethau partner. Mae'r gweithio amlasiantaethol hwn yn sicrhau ein bod ni'n gallu darparu ymateb di-dor i unigolion ag anghenion lluosog a chymhleth. | • MET<br>• Cyfarfodydd risg uchel |

### 10.2 Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (LPS/ DOLS)

Mae'r rhan fwyaf o ALlau yn paratoi i weithredu gofynion y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd cyn gynted ag y byddant yn gwbl hysbys. Mae llawer o ALlau wedi sefydlu prosiect neu weithgor a fydd yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r arferion newydd a'r hyfforddiant.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin** | Cytuno ar ddull rhanbarthol cadarn o reoli awdurdodiadau newydd a phresennol y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. | • Dull rhanbarthol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Castell-nedd Port Talbot** | Sefydlu gweithgor o dan y Grŵp Diogelu i oruchwylio datblygiad deunyddiau hyfforddiant er mwyn ymateb i lansio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'u gweithredu. | • Gweithgor |
| **Sir Benfro** | Sefydlu grŵp gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac mae pedwar is-grŵp gydag arweinwyr wedi'u henwi bellach yn cael eu creu yn unol â grwpiau llywio cenedlaethol i ymrafael â gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. | • Grŵp gweithredu |
| **Rhondda Cynon Taf** | Neilltuo cyllid ychwanegol i glirio asesiadau sydd heb eu cwblhau yn barod ar gyfer gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd. | • Rhestr aros |
| **Abertawe** | Gweithredu trefniadau tîm pwrpasol sydd wedi gwella perfformiad yn sylweddol. | • Tîm pwrpasol |
| **Torfaen** | Creu rôl ymarferydd arweiniol i gefnogi'r gweithredu lleol a rhanbarthol. Rydym wedi adnewyddu ffocws ar godi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddyliol (MCA), sy'n hanfodol wrth weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. | • Ymarferydd arweiniol<br>• MCA |
| **Wrecsam** | Galluogi staff gofal cymdeithasol allweddol i ennill gwell dealltwriaeth o'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a beth fydd eu heffaith ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol. Gweithio gyda thîm datblygu'r gweithlu i nodi meysydd lle y rhagwelir y bydd angen hyfforddiant a chymorth. | • Anghenion hyfforddiant |

## 11. Gofalwyr

### 11.1 Gofalwyr

Yn gyffredinol, mae pob ALl wedi cadw mewn cysylltiad â gofalwyr dros y ffôn ac wedi symud gweithgareddau ar-lein pan nad oedd modd eu gwneud wyneb yn wyneb yn bosibl. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ALlau yn sôn yn benodol yn eu hadroddiadau eu bod wedi dosbarthu PPE i ofalwyr anffurfiol mewn gwahanol ffyrdd.

Trwy ddefnyddio gwahanol grantiau a ffrydiau cyllid, mae'r rhan fwyaf o ALlau, os nad y cyfan ohonynt, wedi darparu llechi, iPads ac offer arall i ofalwyr, cartrefi gofal, canolfannau dydd ac unigolion i'w gwneud hi'n haws iddynt gysylltu ar-lein.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Comisiynu gwasanaeth newydd ar gyfer llesiant gofalwyr ar ôl ymgysylltu â gofalwyr. | • Lles |
| **Conwy** | Darparu gweithgareddau ar-lein, sydd ar gael hefyd ar ffurf pecyn ar gyfer Wythnos Gofalwyr, rhwng 8 a 14 Mehefin 2020.<br>Dechrau gweithio ar yr hunanasesiad yn erbyn y safonau a amlinellir yn Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda'r grŵp cynllunio amlasiantaethol i ofalwyr. | • Wythnos gofalwyr<br>• Hunanasesiad |
| **Sir Ddinbych** | Lansio Siarter Gofalwyr ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr.<br>Sefydlu prosiect Cefnogi Gofalwyr gyda NEWCIS a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, gan adeiladu ar y galwadau cefnogol yn ystod y pandemig a thargedu gofalwyr cudd mewn ardaloedd gwledig.<br>Datblygu cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc, mewn partneriaeth ag Awdurdodau eraill y gogledd, y trydydd sector a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. | • Siarter gofalwyr<br>• Cefnogi Gofalwyr<br>• Cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc |
| **Sir y Fflint** | Lansio Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru i gydnabod y gofalwyr ifanc anhygoel yn y gogledd. | • Cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc |
| **Gwynedd** | Sefydlu Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd a lansio llyfryn 'Edrych ar ôl rhywun'.<br>Cynnal Gŵyl Gofalwyr ar-lein am dair wythnos a chynnal Diwrnod Hawliau Gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr.<br>Cydweithredu'n rhanbarthol i greu cerdyn adnabod ac ap i ofalwyr ifanc yn sgil ymgynghori â gwasanaeth Gweithredu dros Blant. | • Rhwydwaith Gofalwyr<br>• Gŵyl Gofalwyr<br>• Diwrnod Hawliau Gofalwyr |
| **Ynys Môn** | Lansio Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru i gydnabod y gofalwyr ifanc anhygoel yn y gogledd. | • Cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc |
| **Merthyr Tudful** | Datblygu a gwerthuso gwasanaethau newydd ac mae'r canlynol bellach ar waith: Swyddog Gofalwyr, Grŵp Cyfryngau Cymdeithasol, gweithdai 'Meaningful Care Matters', asesiad gofalwyr newydd, gwefan.<br>Dechrau adolygu'r strategaeth gofalwyr rhanbarthol. | • Rolau newydd a diweddaru dogfennau<br>• Strategaeth Gofalwyr<br>• Cynllun Gofalwyr Lleol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Gweithio gyda gofalwyr a'r Trydydd Sector i nodi blaenoriaethau i ofalwyr a chyd-gynhyrchu cynllun gofalwyr lleol. | |
| **Sir Fynwy** | Creu Gofalwyr Ifanc Sir Fynwy – mae timau bach o weithwyr yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm gofalwyr gyda gofalwyr ifanc. | • Tîm Gofalwyr Ifanc |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Gwahodd preswylwyr i ymuno ag Wythnos Gofalwyr i gydnabod cyfraniad hanfodol gofalwyr di-dâl.<br>Datblygu Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg gyda gweithgor rhanbarthol. | • Wythnos Gofalwyr<br>• Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol |
| **Casnewydd** | Lansio'r Cynnig i Ofalwyr – gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael i unrhyw un â rôl ofalu sy'n byw yng Nghasnewydd – mae'r holl wybodaeth hon ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chaiff gyhoeddusrwydd rheolaidd trwy'r sianeli cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu.<br>Darparu rhifyn wedi'i ddiwygio o Lawlyfr Gofalwyr Cyngor Dinas Casnewydd i bob oedolyn sy'n ofalwr hysbys.<br>Ychwanegu ffurflen gais ar-lein newydd at dudalen Fy Nghasnewydd. | • Cynnig i Ofalwyr<br>• Llawlyfr Gofalwyr<br>• Ffurflen Gais |
| **Sir Benfro** | Gofyn i ofalwyr siarad am eu rôl fel gofalwyr di-dâl a'u barn am y thema 'Gwneud gofalu'n weladwy' ar gyfer wythnos gofalwyr.<br>Ehangu gwasanaeth cymorth ffôn Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr Sir Benfro, gan ymestyn ei oriau a darparu cymorth ar y penwythnos. | • Gwneud gofalu'n weladwy<br>• Gwasanaeth cymorth i ofalwyr |
| **Powys** | Rhyddhau Llyfryn newydd ar Hawliau Gofalwyr, a grëwyd gan Credu.<br>Cyhoeddi polisi seibiant i ofalwyr di-dâl, a gynhyrchwyd ar y cyd â gofalwyr. | • Llyfryn Hawliau Gofalwyr<br>• Polisi seibiant |
| **Rhondda Cynon Taf** | Cynnig cyfle i ofalwyr wneud cais am hyd at £300 drwy "Happy @ Home" ar gyfer eitemau i wella'u lles.<br>Archwilio prosiect peilot gofalwyr i wella proses asesiadau gofalwyr a'r nifer sy'n eu hawlio. Yr enw ar hyn oedd "Sgyrsiau â gofalwyr" a phenodwyd arweinydd strategol ar gyfer gofalwyr hefyd. Datblygu'r "Sgyrsiau â gofalwyr" mewn Gwasanaethau Oedolion i wella'r ymgysylltu â gofalwyr. | • Lles Gofalwyr<br>• Sgyrsiau â Gofalwyr<br>• Aseswr Gofalwyr Ifanc<br>• Gweithredu dros Blant |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cynnwys Aseswr Gofalwyr Ifanc pwrpasol ym maes Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Plant.<br><br>Cyflawni mwy o integreiddio rhwng ein tîm gofalwyr a gwasanaethau Gweithredu dros Blant, a gomisiynom yn benodol i gefnogi gofalwyr ifanc. | |
| **Abertawe** | Ymestyn cynnig sgwrs 'beth sy'n bwysig i ofalwyr 'eu hunain'. Mae'r cynnig hwn i ofalwyr wedi'i wreiddio yn ein dull 'Cyfathrebu Cydweithredol' ac mewn sesiynau hyfforddi.<br><br>Gwella gweithio mewn partneriaeth trwy godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr yn Abertawe.<br><br>Dechrau archwilio sut a phryd y mae gweithwyr cymdeithasol yn cael sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' â gofalwyr. A ydym ni'n dal y wybodaeth hon ac yn ei dilyn i fyny, gan wneud y defnydd gorau o system newydd WCCIS.<br><br>Datblygu Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gorllewin Morgannwg a chefnogi dogfen y Canllaw Cyfeirio Cyflym gan y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Rhanbarthol.<br><br>Datblygu'r Strategaeth Ranbarthol gyntaf i Ofalwyr Ifanc. | • Sgyrsiau beth sy'n bwysig<br>• Anghenion gofalwyr<br>• Gwybodaeth i ofalwyr ar WCCIS<br>• Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol<br>• Strategaeth Ranbarthol i Ofalwyr Ifanc |
| **Torfaen** | Dosbarthu bocs o gacennau a cherdyn diolch wedi'i ddylunio'n bersonol i ofalwyr yn Nhorfaen ar gyfer wythnos gofalwyr.<br><br>Defnyddio cyllid a neilltuwyd yn flaenorol ar gyfer gweithgareddau gofalwyr i ariannu'r cynllun grant i ofalwyr. | • Wythnos Gofalwyr<br>• Grant i ofalwyr |
| **Bro Morgannwg** | Datblygu Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd ynghyd â phartneriaid allweddol eraill.<br><br>Cyfrannu'n ariannol i gynorthwyo â sefydlu cronfa grantiau i helpu gofalwyr yr oedd amgylchiadau'r Pandemig wedi effeithio'n andwyol arnynt.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru i sefydlu Panel Arbenigol Gofalwyr i sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed a bod gofalwyr yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau a gânt, a'u llywio.<br><br>Bwrw ymlaen â gwaith ar ddatblygu a chyflwyno Cerdyn Adnabod Rhanbarthol i Ofalwyr Ifanc fel rhan o fenter genedlaethol Llywodraeth Cymru. | • Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol<br>• Grant Gofalwyr<br>• Panel Arbenigol Gofalwyr<br>• Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc<br>• Fideo gofalwyr |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Ymgynghori â gofalwyr a'u cynnwys wrth ddatblygu Fideo Hyfforddiant Cymorth Gofalwyr a grëwyd i hybu'r nifer sy'n hawlio Asesiadau Gofalwyr. | |

### 11.2 Gofalwyr maeth, mabwysiadu a gwarcheidwaeth

Mae nifer o ALlau yn sôn bod recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn her; mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio parhaus.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Gwella cymorth i ofalwyr maeth a rhoi trefniadau ar waith gyda phartneriaid rhanbarthol i recriwtio gofalwyr maeth.<br>Adolygu ac ail-lansio'r polisi gwarcheidiaeth arbennig. | • Recriwtio<br>• Gwarcheidiaeth Arbennig |
| **Conwy** | Prosiect Cymorth Gofal Maeth Uwch – cymorth seicolegol sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) sy'n rhan o wasanaethau plant.<br>Nodi llwybr hyfforddiant ar gyfer y deuddeng mis nesaf, gan gofrestru pob gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn y Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ar hyfforddiant yn seiliedig ar ddirnad meddyliau eraill (mentalization).<br>Recriwtio'n llwyddiannus i bob swydd yn y Tîm Unigolion Cysylltiedig. Mae hyn yn galluogi darparu ymatebion effeithlon er mwyn asesu, goruchwylio a chefnogi Unigolion Cysylltiedig, Gofalwyr Maeth a Gwarchodwyr Arbennig. Sefydlwyd cysylltiadau clir â Chanolfannau Teuluoedd Conwy. | • Iechyd Meddwl<br>• Hyfforddiant<br>• Recriwtio |
| **Sir Ddinbych** | Cwblhau'r archwiliad gan y Gwasanaeth Maethu i fapio'r holl leoliadau sydd ar gael a nodi pa ofalwyr maeth a allai gynnig lleoliadau ychwanegol mewn argyfwng. | • Map lleoliadau maethu |
| **Sir y Fflint** | Llunio partneriaeth rhwng y Tîm Maethu ac Y Lab trwy brosiect 'Arloesi i Arbed' i ddatblygu model a allai ysgogi ffyrdd newydd o weithio mewn gwasanaethau maethu. | • Arloesi i Arbed<br>• Model Teulu Mockingbird |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Gweithredu Model Teulu Mockingbird, sy'n efelychu teulu estynedig mewn 'Clystyrau' o 6 i 10 teulu sy'n maethu. Mae 'Gofalwr Hwb' yn cefnogi'r Clwstwr, sy'n darparu seibiannau cynlluniedig a brys, ynghyd â chyngor, hyfforddiant a chymorth. Bydd y model hwn nawr yn cael ei gyflwyno i 50 o deuluoedd yng ngogledd Cymru. | |
| **Gwynedd** | Cynnal ymgyrch ddigidol dros gyfnod o bythefnos i recriwtio gofalwyr maeth. | • Ymgyrch Ddigidol |
| **Ynys Môn** | Gweithio gyda Thimau Maethu o'r 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth trwy fideo a cherdd arbennig i chwalu'r chwedlau am faethu.<br>Goleuo adeilad y cyngor yn y lliwiau corfforaethol ar gyfer Pythefnos Gofal Maeth i helpu codi ymwybyddiaeth am faethu ac i ddathlu Gofalwyr Maeth arbennig yr Awdurdod Lleol. | • Codi ymwybyddiaeth |
| **Merthyr Tudful** | Gweithio ar y cyd â Rhondda Cynon Taf ar recriwtio gofalwyr maeth, gyda drws ffrynt rhanbarthol ar waith ers 2019.<br>Cynnal yr adolygiad o'r Gwarcheidwaeth Arbennig ac mae polisi newydd yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. | • Recriwtio<br>• Polisi Gwarcheidwaeth Arbennig |
| **Sir Fynwy** | Parhau i gynnal ymgyrchoedd gweithgar i gynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol, gan gynnwys yr '20 rheswm dros faethu'.<br>Gwasanaeth Amser Teuluol dan Oruchwyliaeth (FTS) – amser da, diogel gyda'i gilydd, i blant a'u teuluoedd, gan alluogi plant i arfer eu hawl i gael amser o ansawdd da gyda'r bobl sy'n bwysig iddynt.<br>Fy Nhîm Cymorth (MyST) – gwasanaeth maethu therapiwtig dwys amlddisgyblaethol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan weithio ar draws Blaenau Gwent a Sir Fynwy. | • Recriwtio<br>• Gwasanaeth Amser Teuluol dan Oruchwyliaeth<br>• Fy Nhîm Cymorth |
| **Sir Benfro** | Lansio ymgyrch recriwtio ac asesu i ofalwyr maeth, yn seiliedig ar frand cenedlaethol 'Maethu Cymru / Foster Wales'. | • Recriwtio |
| **Rhondda Cynon Taf** | Arloeswyr Gofal Maeth, sy'n cynnig cymorth a chyngor gan gymheiriaid i ofalwyr maeth cymeradwy ac sy'n cynorthwyo â datblygu sgiliau darpar ofalwyr.<br>Datblygu rhaglen hyfforddiant therapiwtig i bob gofalwr maeth o'r enw "Hyder mewn Gofal". | • Hyfforddiant, datblygiad a chymorth cymheiriaid |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Lansio'r pecyn hyfforddiant a chymorth newydd, gan roi llwybr datblygu i ofalwyr maeth i gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth. | |
| **Bro Morgannwg** | Cynorthwyo â datblygu cynnig craidd rhanbarthol i bob gofalwr maeth, i ddenu gofalwyr maeth newydd a chadw gofalwyr maeth presennol a phrofiadol.<br>Gweithio gyda'r rhanbarth i adnewyddu a diweddaru'r Cynllun Gwaith Rhanbarthol.<br>Adolygu a diweddaru'r cytundeb gofal maeth.<br>Diwygio taliadau i ofalwyr maeth medrus i roi mwy o lwybr datblygu iddynt a galluogi cynnydd yn eu lwfans.<br>Gweithio gyda'r rhanbarth i ddatblygu brand Maethu Cymru a gwella'n brandio lleol ein hunain. | • Recriwtio a chadw rhanbarthol<br>• Cynllun Gwaith Rhanbarthol<br>• Cytundeb Gofal Maeth<br>• Taliadau<br>• Brand Maethu Cymru |
| **Wrecsam** | Cynyddu ymdrechion recriwtio ar gyfer maethu gydag ymgyrch, diweddariad i'r wefan a hysbyseb radio.<br>Adolygu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru rhanbarthol, yr ydym yn gartref iddo, sy'n helpu i osod plant o ogledd Cymru i'w mabwysiadu, gan nad allant ddychwelyd i fyw gyda'u rhieni. Gwnaed argymhellion i wella llywodraethiant a strwythur y gwasanaeth.<br>Gwreiddio mewn ymarfer fframweithiau'r 4C ar gyfer lleoliadau preswyl a maeth a wneir y tu allan i'r awdurdod. | • Ymgyrch<br>• Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru<br>• Fframweithiau 4C |

## 12. Dementia

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Yng nghamau olaf y gwaith o ddatblygu fflat clyfar dementia a fydd yn arddangos awtomeiddio yn y cartref, ystafell synhwyraidd ar gyfer dementia ac offer. | • Fflat clyfar |
| **Caerdydd** | Cyflwyno gwefan Caerdydd sy'n Deall Dementia | • Gwefan |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir Ddinbych** | Rhannu arfer da wrth weithio gyda dementia ar draws holl wasanaeth Cyngor Sir Ddinbych trwy Brosiect sefydledig y Cyngor sy'n Dementia Gyfeillgar.<br>Ymestyn ac atgyfnerthu ein cysylltiadau â chymunedau a grwpiau sy'n deall dementia.<br>Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia – yn gweithio o fewn pob un o'r 4 Tîm Adnoddau Cymunedol gan ddefnyddio dull y 'tîm o amgylch yr unigolyn'. | • Prosiect Cyngor sy'n Ddementia Gyfeillgar<br>• Cymunedau sy'n Deall Dementia<br>• Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol |
| **Sir y Fflint** | Peilot 'gwasanaeth eistedd dementia' wedi'i ddarparu gan Weithwyr Cymorth Dementia.<br>Cyhoeddi'r Strategaeth Dementia Ranbarthol i amlinellu sut bydd gwasanaethau'n gweithio tuag at wasanaethau dementia integredig yng ngogledd Cymru. | • Gwasanaeth Eistedd<br>• Strategaeth Dementia |
| **Gwynedd** | Creu prosiect Mentro Gyda'n Gilydd sy'n dangos y prif newidiadau a wnaed i wasanaethau yng Ngwynedd yn dilyn y pandemig ar fideo i breswylwyr bregus a phobl sy'n byw gyda dementia.<br>Lansio gwefan newydd o'r enw Dementia Actif Gwynedd. | • Fideos addysgiadol<br>• Tîm DementiaGo – Cydnabyddiaeth<br>• Gwefan |
| **Ynys Môn** | Cynyddu'r cyllid i gynorthwyo Cymdeithas Alzheimer i ail-ddylunio sesiynau rhithwir "Singing for the Brain". | • Signing for the Brain |
| **Merthyr Tudful** | Cwblhau ailddatblygu gwasanaeth dydd dementia. | • Gwasanaeth Dydd |
| **Casnewydd** | Lansio gwasanaeth ailalluogi arbenigol o'r enw'r Datblygiad Gwasanaeth Dementia | • Ailalluogi |
| **Abertawe** | Gweithio ar brosiect o'r enw "Hen Blant Bach" mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe. Cyflwynwyd y gwaith rhwng y cenedlaethau gydag ysgolion cynradd a phobl sy'n byw gyda dementia trwy gyfrwng y Gymraeg. Enwebwyd y prosiect hwn am Wobr Gofal Cymdeithasol. | • Pontio'r Cenedlaethau |
| **Torfaen** | Gyda 'Mentro Gyda'n Gilydd', datblygu nifer o adnoddau ar-lein i gefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr, i helpu i hybu cyfranogiad cymunedol.<br>Creu adnodd ar y we ar y cyd â meddygon teulu a chydweithwyr iechyd lleol - 'Dementia Roadmap' http://wales.dementiaroadmap.info/. | • Cyfranogiad Cymunedol<br>• Map ffordd dementia |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Wrecsam** | Prynu dyfeisiau Gweithgareddau Therapi Atgofion Rhyngweithiol (RITA).<br>Comisiynu NEWCIS i gyflogi gweithiwr cymorth dementia rhan-amser, i gynorthwyo gofalwyr di-dâl â chynlluniau brys pe bai rhywbeth annisgwyl yn digwydd, fel salwch gofalwr. | • Therapi Atgofion Rhyngweithiol<br>• Gweithiwr cymorth dementia |

## 13. Tai a digartrefedd

Mae angen cyffredinol ymhlith ALlau Cymru am fwy o lety i ymadawyr gofal a phobl ifanc..

Mae nifer o ALlau yn sôn yn benodol yn eu hadroddiad cymaint y maent wedi croesawu'r cynnydd yn y Grant Cymorth Tai (HSG).

Roedd gweithredu'r gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd y Cyhoedd i sicrhau bod llety dros dro addas ar gael i bob person digartref yn ystod y pandemig yn her i lawer o ALlau.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Parhau i chwarae rhan weithgar yn natblygiad tai newydd: mae creu 10 fflat i bobl ifanc yn (Tŷ Parc) Tredegar yn mynd yn dda, gydag 17 cleient hyd yn hyn.<br>Cynnal trafodaethau parhau gyda'r Tîm Strategaeth Tai am yr angen i gael at a/neu ddatblygu mwy o fflatiau un ystafell wely i'n hymadawyr gofal. | • Fflatiau i bobl ifanc<br>• Ymadawyr gofal<br>• Panel symud ymlaen |
| **Caerdydd** | Gweithio gyda'r adran Tai i sicrhau mwy o lety i bobl ifanc agored i niwed. | • Pobl ifanc |
| **Conwy** | Estyn allan i gymdeithasau tai a gallu llunio cysylltiad â Chartrefi Conwy i fod yn rhan o'u Cynllun Passivhaus; mae hyn yn cynnwys wyth o unedau llety i bobl sengl.<br>Cwblhau Prosiect Maelgwn – Adeiladu 27 eiddo yn Llandudno i bobl anabl, ymadawyr gofal a phobl agored i niwed.<br>Gweithio gyda BIP Betsi Cadwaladr i ddatblygu byw'n annibynnol i 4 person. | • Person sengl<br>• Adeiladu<br>• Byw'n annibynnol<br>• Cynllun tai Gofal Ychwanegol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Dechrau prosiect cydweithredol gyda phartneriaid i sefydlu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol ochr yn ochr â darpariaeth iechyd a lles. | |
| **Sir y Fflint** | Datblygu Polisi newydd ar gyfer 'Addasiadau i Gartrefi Gofalwyr Maeth' a fydd yn gallu cael gafael ar grant sydd hefyd ar gael i eraill, gan gynnwys er enghraifft, teuluoedd sy'n mabwysiadu, teulu a ffrindiau / gofalwyr plant sydd o dan Orchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig.<br><br>Cwblhau 12 fflat byw'n annibynnol unigol (gydag opsiwn dwy ystafell wely) i ddarparu llety i oedolion sy'n anabl yn gorfforol, neu sydd ag anableddau dysgu neu Awtistiaeth.<br><br>Sefydlu llety camu i fyny / camu i lawr dros dro a rennir i bobl sydd ag anabledd corfforol (sy'n ddigartref, neu nad all ddychwelyd adref dros dro) ar y cyd â'r Gwasanaethau Tai.<br><br>Parhau i weithio gyda Thai trwy'r Gwasanaeth Pobl Ifanc Integredig, a chyflogwyd dau swyddog i gynorthwyo pobl ifanc sy'n ddigartref, neu deuluoedd sydd angen mwy o gymorth. Mae swyddog ychwanegol yn gweithio ym maes Tai i gynorthwyo pobl ifanc 18 oed a hŷn. | • Polisi/grant addasiadau<br>• Byw'n Annibynnol<br>• Anableddau Corfforol<br>• Digartrefedd |
| **Gwynedd** | Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".<br><br>Dechrau cynllunio prosiect i adnewyddu hen fanc y Natwest, ar y cyd â GISDA, i ddarparu 5 fflat i bobl ifanc ddigartref, ynghyd â fflat hyfforddi.<br><br>Cyflwyno Polisi Gosod Tai newydd sy'n blaenoriaethu pobl leol ac sy'n disodli'r hen system o osod tai ar sail pwyntiau. | • Cynllun Gweithredu Tai<br>• Digartrefedd<br>• Polisi gosod |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Datblygu'r Cynllun Byw â Chymorth cyntaf i unigolion â diagnosis iechyd meddwl.<br><br>Datblygu Cynllun Gofal Ychwanegol ar draws pob anabledd yn cynnwys bloc o 5 fflat hunangynhwysol wedi'u hadnewyddu. Rydym wedi comisiynu darparwr i gyflwyno gofal yn y gwasanaeth gofal ychwanegol newydd.<br><br>Cael cymeradwyaeth ar gyfer 13 swydd gwaith atal a chymorth ychwanegol yn y gwasanaeth Opsiynau Tai.<br><br>Datblygu uned ar gyfer lleoliadau argyfwng.<br><br>Cynnal peilot a roddodd gymorth ailsefydlu i unigolion sydd wedi cael argyfwng iechyd meddwl/digartrefedd ac a gafodd gymorth i gael llety parhaol. | • Byw â Chymorth<br>• Cynllun Gofal Ychwanegol Anabledd<br>• Swyddi tai ychwanegol<br>• Model seiliedig ar gynnydd<br>• Lleoliadau argyfwng<br>• Digartrefedd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Sicrhau cyllid i newid un tŷ 3 ystafell wely a rennir yn 4 fflat hunangynhwysol ac i ddatblygu 7 uned llety â chymorth bellach i unigolion sy'n ddigartref / dan fygythiad digartrefedd ac sydd ag anghenion iechyd meddwl/anghenion cymhleth.<br>Sicrhau cyllid i adeiladu tai fforddiadwy newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a chwblhawyd 91 o gartrefi cymdeithas tai, wedi'u hariannu gan grant, yn ystod y flwyddyn. | |
| **Sir Benfro** | Adolygu'r ddarpariaeth a'r gwasanaethu digartrefedd a sefydlu cyfleuster cymorth digartrefedd i bobl sengl gydag unedau hunangynhwysol unigol, gan gynnwys hostel i deuluoedd, wedi'u creu o floc o fflatiau. | • Digartrefedd |
| **Powys** | Parhau i weithio i ddatblygu opsiynau llety pobl hŷn, a chytunwyd ar gynllunio a chyllid ar gyfer dau ddatblygiad ychwanegol.<br>Cynnal dadansoddiad a datblygu arfarniad o opsiynau ystod a chost llety i ymadawyr gofal 18 oed a hŷn ym Mhowys.<br>Fframwaith Byw â Chymorth - ar waith am 12 mis, gyda gwasanaeth a ail-gomisiynwyd oll yn cael eu trosglwyddo'n hwylus.<br>Agor tŷ carreg gamu (Spring-Board) yng nghanolbarth Powys. Mae'r prosiect yn cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal â dysgu sgiliau bywyd hanfodol i'w galluogi i fod yn barod i fod yn denantiaid.<br>Dylunio model gofal i ddatblygu llety diogelach i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Nodwyd eiddo addas ac mae hwn wrthi'n cael i brynu. | • Pobl hŷn<br>• Ymadawyr Gofal<br>• Fframwaith Byw â Chymorth<br>• Tŷ carreg gamu<br>• Model Gofal |
| **Rhondda Cynon Taf** | Cwblhau trydydd llety Gofal Ychwanegol, cyfleuster 60 fflat Cwrt yr Orsaf.<br>Cwblhau datblygiad newydd i bobl ag Anableddau Dysgu, gan osod offer tele-ofal. | • Gofal Ychwanegol<br>• Anableddau Dysgu |
| **Torfaen** | Adolygu'r defnydd ar welyau cymunedol a datblygu achos busnes llwyddiannus i sicrhau cyllid ar gyfer ariannu'r gwaith o ddylunio ac adeiladu cyfleuster cymunedol arhosiad byr gyda'r nod o leihau nifer y lleoliadau parhaol tymor hir, gan alluogi pobl i aros gartref a gwella llif o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty.<br>Rhoi peilot allgymorth dyfal ar waith gyda'r nod o gefnogi unigolion sy'n cysgu ar y stryd neu mewn perygl o fod yn cysgu ar y stryd yn Nhorfaen. Mabwysiadu dull amlasiantaethol. | • Arhosiad byr<br>• Pobl sy'n cysgu ar y stryd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Wrecsam** | Mewn partneriaeth â thai, sefydlu'r Panel Tai i Breswylwyr Bregus i adolygu sefyllfaoedd lle y mae teuluoedd wedi'u cymeradwyo'n ofalwyr cyswllt, ond mae tai yn faen tramgwydd o ran cael llety addas i gartrefu'r person ifanc.<br>Cynnal ymgyrch recriwtio llwyddiannus i gynyddu nifer y gwesteiwyr llety â chymorth. | • Panel Tai i Breswylwyr Bregus<br>• Gwesteiwyr llety â chymorth |

## 14. Plant sy'n derbyn gofal, llety i blant ac ymadawyr gofal

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Tîm Amlddisgyblaethol Bwthyn y Ddol – Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n gorfod cael gofal ac, yn achos y rhai sy'n derbyn gofal, lleihau faint o amser maent yn ei dreulio mewn lleoliad gofal. | • Tîm amlddisgyblaethol |
| **Merthyr Tudful** | Cynhyrchu strategaeth ymadawyr gofal, 'Make My Own Decision', yn dilyn ymgynghoriad â phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal.<br>Cwblhau Cam 2 Yn Agosach at Adref gan chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu gosod yn y ddarpariaeth fwyaf addas ar gyfer eu lles. | • Strategaeth Ymadawyr Gofal<br>• Yn Agosach at Adref – pobl ifanc |
| **Casnewydd** | Agor gwasanaethau preswyl newydd i blant yng Nghasnewydd i leihau nifer y lleoliadau'r tu allan i'r sir a chadw plant yn agos at eu teulu a'u rhwydweithiau cymunedol.<br>Pan Fydda i'n Barod – cynllun i alluogi ymadawyr gofal i aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed a hyd at 25 oed. | • Gwasanaeth Preswyl<br>• Pan Fydda i'n Barod |
| **Sir Benfro** | Lansio strategaeth leihau 3 blynedd – yn anelu at atal plant rhag gorfod derbyn gofal, ar yr un pryd â chynorthwyo plant i ddychwelyd adref pan fo'n ddiogel iddynt wneud. | • Strategaeth leihau |
| **Powys** | Diwygio'r Cynllun Llwybr ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal.<br>Cynyddu'r lwfans ariannol yn unol â'r newid i'r credyd cynhwysol. | • Cynllun Llwybr<br>• Lwfans Ariannol<br>• Cartref Plant Preswyl |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Paratoi i agor y cyntaf o Gartrefi Plant Preswyl newydd Powys. | |
| **Rhondda Cynon Taf** | Comisiynu'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i gynnal gwerthusiad annibynnol o'n strategaeth i blant sy'n derbyn gofal.<br>Datblygu'r cartref preswyl i blant, Carn Ingli, yn Aber-dâr i osgoi'r angen am orfod lleoli plant y tu allan i'r sir.<br>Datblygu papur cysyniad i ystyried anghenion y rhanbarthol am lety preswyl i blant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion emosiynol mwy cymhleth. | • Gwerthusiad plant sy'n derbyn gofal<br>• Cartref preswyl<br>• Anghenion preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal<br>• Llety diogel |
| **Abertawe** | Gweithredu model preswyl newydd Ar Ffiniau Gofal i blant a phobl ifanc y mae risg y bydd angen iddynt dderbyn gofal.<br>Mapio cymorth llety diogel i blant sy'n derbyn gofal yn y rhanbarth. | • Model preswyl i deuluoedd<br>• Map llety diogel |
| **Torfaen** | Datblygu Gwasanaeth Cymorth Gwell i bobl sy'n derbyn gofal. Neilltuo gweithiwr cymdeithasol wedi'i enwi i bob person ifanc, a chynghorydd personol, i gefnogi eu taith. | • Enwi gweithiwr cymdeithasol a chynghorydd personol<br>• Gwasanaeth cymorth gwell |
| **Wrecsam** | Datblygu a chytuno ar Strategaeth Digonolrwydd Lleoliadau i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael llety digonol, o ansawdd uchel, sy'n bodloni eu hanghenion.<br>Adolygu timau plant sy'n derbyn gofal ac sy'n ymadael â gofal, a chreu dau dîm ar wahân. | • Strategaeth Digonolrwydd Lleoliadau |

## 15. Y Gymraeg

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir Ddinbych** | Comisiynu cwrs Cymraeg ar-lein.<br>Rhannu manylion am sut y gall Darparwyr archebu adnoddau rhad ac am ddim 'Iaith Gwaith' a hyrwyddo sticer y swigen sgwrs oren i nodi dewis iaith yn gyflym ac yn weledol. | • Cwrs ar-lein<br>• Adnoddau rhad ac am ddim<br>• Swigen sgwrs oren |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Rhannu gwybodaeth am y cwrs Cymraeg ar-lein 10 awr rhad ac am ddim sydd ar gael i'r sector gofal, ynghyd â'r adnoddau sy'n cael eu cynhyrchu gan Gymunedau Digidol Cymru.<br>Adnewyddu hen adeiladu sydd bellach yn Ganolfan Gymraeg sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i bob oedran.<br>Cefnogi peilot sefydlu ar-lein Hyrwyddwr y Gymraeg ar gyfer Cyfeillion Dementia Cymru. Rhan o brosiect cenedlaethol i safoni terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol. | • Canolfan Gymraeg<br>• Cyfeillion Dementia Cymru |
| **Gwynedd** | Datblygu polisi recriwtio cadarn gyda'r gofyniad bod staff yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon priodol. | • Recriwtio |
| **Ynys Môn** | Cynnal cyflwyniadau a chodi ymwybyddiaeth o 'Fwy na Geiriau', a bod Safonau'r Gymraeg yn elfen ofynnol o broses sefydlu staff pob adran. | • Safonau'r Gymraeg |
| **Merthyr Tudful** | Mae'n rhaid bod gweithwyr newydd wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 1 yn y Gymraeg cyn dechrau gweithio. | • Gweithwyr newydd |
| **Sir Benfro** | Creu cyfeirlyfr o staff Cymraeg eu hiaith, sy'n cael ei ddiweddaru trwy'r system AD. | • Cyfeirlyfr staff Cymraeg eu hiaith |
| **Abertawe** | Cyfrannu nifer o enghreifftiau o arfer da at y gwerthusiad cenedlaethol a gomisiynodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar o strategaeth Mwy Na Geiriau.<br>Ymestyn y cynnig i staff ddysgu Cymraeg drwy'r gwaith. Cynnal cyrsiau hyd at lefel sylfaen nawr, gyda'r cyfleoedd hyn yn cael eu hysbysebu'n helaeth ar fewnrwyd y staff a thrwy ddydd Mawrth hyfforddiant #TrainingTuesday.<br>Datblygu grŵp hyfforddiant corfforaethol y Gymraeg. | • Enghreifftiau arfer da<br>• Dysgu trwy waith<br>• Grŵp hyfforddiant corfforaethol y Gymraeg |
| **Torfaen** | Arwain datblygiad rhanbarthol adnodd y Gymraeg sy'n anelu at annog yr hyder i ddefnyddio Cymraeg achlysurol gyda siaradwyr Cymraeg sy'n derbyn gofal. | • Adnoddau'r Gymraeg |
| **Bro Morgannwg** | Datblygu cynnig i beilota cyflwyno sgiliau Cymraeg o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Cynhyrchu modiwl ar-lein ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | • Sgiliau Cymraeg<br>• Modiwl ar-lein |

## 16. Galluogwyr

## 16.1 Ffyrdd o weithio

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau | • Seiliedig ar gryfderau |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Lansio model canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau plant.<br>Atgyfnerthu model 'beth sy'n bwysig' gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau oedolion. | • Canlyniadau<br>• Seiliedig ar gryfderau |
| **Caerdydd** | Parhau i ddatblygu ymarfer seiliedig ar gryfderau trwy gyflwyno hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol.<br>Cyflwyno 'Read About Me' i holl breswylwyr cartrefi gofal yng Nghaerdydd i hybu parhad gofal.<br>Gwella cefnogaeth i blant sy'n cael eu mabwysiadu, a'u teuluoedd, gan gynnwys Gweithwyr Stori Bywyd mewn timau ardal a gwella prydlondeb prosesau mabwysiadu. | • Seiliedig ar gryfderau<br>• Read About Me<br>• Gweithwyr Stori Bywyd |
| **Sir Fynwy** | Parhau i ddatblygu ethos ein hymarfer, sy'n berthynol, yn seiliedig ar gryfderau, yn garedig, yn dosturiol ac sy'n canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig'. | • Seiliedig ar gryfderau |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Parhau i fesur canlyniadau i bobl â'r anghenion mwyaf cymhleth fesul achos unigol. | • Canlyniadau |
| **Powys** | Gwneud ein hyfforddiant canlyniad-ganolog ar sail cryfderau yn ofyniad i'r holl staff mewn timau gweithredol oedolion; gweithio ar sail cryfderau yw'r 'hyn a wnawn'.<br>Datblygu grŵp o fentoriaid canlyniad-ganolog ar sail cryfderau, sydd wedi bod yn cynnal grwpiau cymorth misol. Creu llyfrgell ar-lein o ganllawiau ac arferion da. | • Mentoriaid canlyniad-ganolog ar sail cryfderau |
| **Abertawe** | Mabwysiad model ymarfer newydd o 'Gyfathrebu Cydweithredol', sy'n canolbwyntio ar weithio gydag unigolion a'u hawliau, eu cryfderau a'u canlyniadau.<br>Bwrw ymlaen â Dull Meddwl trwy Systemau mewn Gofal Cymdeithasol Plant.<br>Gweithredu asesiadau 'Beth sy'n bwysig i chi'; canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a'u safbwynt eu hunain am y canlyniadau lles yr hoffent eu cyflawni ar draws pob gwasanaeth. | • Seiliedig ar gryfderau, canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Meddwl trwy Systemau<br>• Beth sy'n bwysig i chi |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Torfaen** | Parhau i ddatblygu ymhellach gontractau a chynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach na chanolbwyntio ymdrechion ar fonitro tasgau a phrosesau. | • Canolbwyntio ar ganlyniadau |
| **Bro Morgannwg** | Cwmpasu a gweithredu model seiliedig ar gryfderau ar gyfer gweithio'n gydgynhyrchiol â phlant a'u teulu. Mae hyn yn cynnwys symud rhag yr asesiadau traddodiadol seiliedig ar anghenion, i ffocws ar sgyrsiau seiliedig ar gryfderau.<br>Datblygu fframwaith ar gyfer ymarfer (gwaith seiliedig ar berthynas) gyda'r Athro Gillian Ruch gan gynnig gweithdai a sesiynau rheolaidd i'r gweithlu.<br>Prynu 'bagiau cit' i bob gweithiwr a gofalwyr maeth, sydd â neges gref arnynt am werthfawrogi pwysigrwydd siarad â phlant a gwrando arnynt. | • Seiliedig ar gryfderau, canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Gwaith seiliedig ar berthynas<br>• Sgyrsiau seiliedig ar gryfderau |
| **Wrecsam** | Penodi rheolwr prosiect i gynllunio a chyflwyno cylch archwilio sy'n canolbwyntio ar asesiadau seiliedig ar asedau, chynllunio gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gallu meddyliol ac eiriolaeth.<br>Aildrefnu'r tîm cymorth i deuluoedd, yn gwahanu swyddogaethau allweddol y tîm a neilltuo "podiau" o weithwyr i ganolbwyntio ar un maes gwaith. | • Seiliedig ar gryfderau, canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Podiau o weithwyr |

### 16.2 Technoleg

Mae'r rhan fwyaf o ALlau wedi symud i asesiadau, cyfathrebiadau ac ati ar-lein oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae ALlau a phartneriaid wedi cyflwyno a darparu llawer o weithgareddau ar-lein yn ystod y cyfyngiadau a pharhawyd â'r rhain pan godwyd y cyfyngiadau.

Mae llawer o ALlau yn amlygu bod y pandemig wedi dangos manteision a chyfleoedd gweithio digidol gyda chysylltiad â llawer o'n plant a phobl ifanc wedi gwella, a mwy o drefniadau gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn heriol tu hwnt i adrannau TG Cynghorau, gydag ychydig ALlau yn cydnabod eu rôl hanfodol wrth gefnogi gwaith parhaus Gwasanaethau Cymdeithasol.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin** | Galwad Seraphim – dangosfwrdd, teclyn monitro a dyfais rhwystro galwadau niwsans true Call arloesol sy'n cysylltu data gweithgarwch rhwystrwr galwadau gyda risg defnyddwyr. Mae natur true Call yn golygu bod llawer o ymyriadau'n gallu cael eu cyflawni o bell. | • Galwadau niwsans – risg |
| **Conwy** | Mabwysiadu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn system rheoli achosion newydd.<br>Prynu deg desg glyfar i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.<br>Prynu dyfeisiau 'Rempod' ar gyfer pum cartref gofal. | • WCCIS<br>• Desgiau clyfar<br>• Rempod |
| **Sir Ddinbych** | Gosod 'Owl' mewn canolfan ddydd i alluogi sesiynau i gael eu darlledu o'r ganolfan i gartref Dinasyddion.<br>Neilltuo Gweithiwr Cefnogi i hyrwyddo ac annog technoleg o fewn ein hymyrraeth.<br>Dechrau gweithredu nifer o dechnolegau fel:<br>• Technoleg Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol (RITA)<br>• Roboteg Pepper – mae Pepper yn robot dynolffurf sy'n amgyffred emosiynau ac sy'n addasu ei ymddygiad yn unol â hynny<br>• Dyluniwyd Morlo PARO, sef robot therapiwtig rhyngweithiol datblygedig sy'n dwyn cyfoethogi seicolegol a gorfoledd i ddinasyddion<br>• REM PODS – dull hel atgofion rhyngweithiol arall. | • Owl<br>• Hyrwyddwr technoleg<br>• Hel atgofion<br>• Roboteg Pepper<br>• Morlo PARO |
| **Sir y Fflint** | Datblygu System Rheoli Contractau o fewn system Paris i gadw manylion darparwyr, gyda gwybodaeth contract ac wedi'i storio'n gyfrinachol. | • Rheoli Contractau |
| **Ynys Môn** | Datblygu gwefan CYMUNED, a fydd yn cynnwys dolenni i weithgareddau/fideos, gwybodaeth a chyngor iechyd a lles, a chyfleoedd i ddweud eu dweud. | • Gwefan |
| **Powys** | Prynu 'anifeiliaid anwes' sy'n gydymaith robotig rhyngweithiol, sef cathod, a fydd yn cael eu treialu o dan y prosiect hwn. | • Anifeiliaid anwes robotig |
| **Rhondda Cynon Taf** | Gwella ein gwasanaeth 'Llinell Fywyd' dros y ffôn trwy gynnwys gwasanaeth Ymatebwr Symudol sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol i ddarparu ymateb symudol 24 awr. | • Llinell Fywyd |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Bro Morgannwg** | Prosesu datblygiad cartref pontio Clyfar, a fydd yn galluogi unigolion i ddefnyddio atebion technoleg i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a'u rheolaeth dros eu bywyd eu hunain.<br>Galluogi pobl sy'n troi at ofal a chymorth i ddefnyddio Ap Insight a ddatblygwyd gan Innovate Trust i alluogi pobl ag anableddau dysgu i ddatblygu eu sgiliau digidol a chael at weithgareddau a heriau ar-lein. | • Cartref pontio Clyfar<br>• Ap Insight |

### 16.3 Comisiynu, brocera a thaliadau uniongyrchol

Yn ystod y pandemig, mae llawer o ALlau wedi cynyddu'r hyblygrwydd wrth ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ac mae llawer ohonynt yn datblygu cynlluniau neu'n edrych ar wersi a ddysgwyd i nodi pa welliannau y gellir eu cadw yn y dyfodol.

Ar draws pob ALl yng Nghymru, mae timau Comisiynu wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda darparwyr i sicrhau eu cynaliadwyedd, eu hymwybyddiaeth o ofynion a darpariaeth briodol ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn eu cymunedau.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Moderneiddio comisiynu gofal yn y cartref ar sail dulliau hyblyg, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. | • Comisiynu |
| **Conwy** | Datblygu blaengynllun gwaith i gynyddu'r nifer sy'n hawlio Taliadau Uniongyrchol. Ar hyn o bryd, rydym yn aildendro gwasanaethau cymorth ar gyfer y cynllun ac yn siarad â chwsmeriaid presennol.<br>Peilota datblygiad Porthol Cymorthyddion Personol (Anableddau Dysgu) ar-lein yn rhanbarthol<br>Adolygu model comisiynu a chyllid gofal cartref presennol a sefydlu tîm prosiect i ddechrau edrych ar y trefniadau comisiynu presennol o fewn Gwasanaethau Pobl Hŷn, gan gynnwys gwerthusiad llawn o brosiect peilot sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn Nhîm Adnoddau Cymunedol Plas Menai yn Llanfairfechan. | • Taliadau Uniongyrchol<br>• Cymorthyddion Personol<br>• Gofal cartref seiliedig ar ganlyniadau |
| **Sir y Fflint** | Gweithio gyda phartneriaid i wneud fideo i esbonio beth yw Gwerth Cymdeithasol a sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gael y gwerth gorau i ddinasyddion lleol. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r | • Gwerth cymdeithasol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol newydd a chyflwynwyd system newydd hefyd, IMPACT, i gynorthwyo â mesur, monitro ac adrodd ar ganlyniadau gwerth cymdeithasol.<br>Lansio hafan dudalen newydd y Taliadau Uniongyrchol, gyda Phorth Cymorthyddion Personol newydd sy'n darparu cofrestr o Gymorthyddion Personol. | • Porth Cymorthyddion Personol |
| **Merthyr Tudful** | Gweithredu cynllun gweithredu'r Strategaeth Comisiynu Lleoliadau a bydd adolygiad o'r strategaeth i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn dilyn. | • Strategaeth Comisiynu Lleoliadau |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Adolygu contractau Gwasanaethau Plant a gomisiynwyd, gan gynnwys ymgynghori helaeth.<br>Datblygu System Froceriaeth Ddigidol Gofal yn y Cartref i wella effeithlonrwydd, cywirdeb a diogelwch data. Caiff rhestr froceriaeth data fyw ei chynhyrchu'n awtomatig a'i hanfon at ddarparwyr. | • Adolygu gwasanaethau plant<br>• System Froceriaeth Ddigidol Gofal yn y Cartref |
| **Sir Benfro** | Adolygu'r broses Taliadau Uniongyrchol a dod â gwasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol newydd yn fewnol, gan sefydlu tîm Taliadau Uniongyrchol newydd. | • Taliadau Uniongyrchol |
| **Powys** | Lansio offeryn chwilio am helpwyr personol.<br>Waled rithiol – mae'n debyg i gyfrif banc ar-lein a bydd yn galluogi unigolion i gadw trywydd ar eu taliadau uniongyrchol. | • Offeryn chwilio am helpwyr personol<br>• Waled rithiol |
| **Rhondda Cynon Taf** | Symleiddio'r contractau ar gyfer Cymorth i Fenywod a Chyngor ar Bopeth, lle'r oedd gan y ddau sefydliad gontractau gyda dwy ffrwd gyllid wahanol mewn un trefniant cytundebol.<br>Symud i fodel comisiynu seiliedig ar ganlyniadau. Rydym wedi ailenwi'r tîm, y Garfan Hyblygrwydd Cyllido, sy'n rhan o'r Garfan Alinio Rhaglenni ehangach.<br>Cynnal cyfarfodydd ymgysylltu â darparwyr i drafod ei strategaeth comisiynu lleoliadau a'i ddatganiad sefyllfa'r farchnad. | • Contractau<br>• Comisiynu seiliedig ar ganlyniadau<br>• Darparwyr |
| **Torfaen** | Sefydlu Tîm Prosiect Taliadau Uniongyrchol i fwrw golwg ar ddatblygu a dylunio'r gwasanaeth i oresgyn y rhwystrau i bawb rhag hawlio taliadau uniongyrchol. | • Taliadau Uniongyrchol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Wrecsam** | Comisiynu Catalyddion Cymunedol i helpu pobl ar draws y sir i ddefnyddio'u doniau i ddechrau a rhedeg mentrau a busnesau bach sy'n cefnogi ac yn gofalu am bobl leol eraill. | • Comisiynu |

## 17. Seiliedig ar anghenion cleientiaid

### 17.1 Iechyd meddwl

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Caerffili** | Datblygu cangen prosiect iechyd meddwl Cynllun Cysylltu Bywydau De-ddwyrain Cymru ac ehangu'r ardal beilot o Gasnewydd i Gaerffili. | • Cysylltu Bywydau |
| **Conwy** | Dechrau ail-lunio ein gwasanaethau iechyd meddwl, gan ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned, gan agor ein canolfan gyntaf yn Llandudno.<br>Gwreiddio cyfarfodydd Ffiniau Gofal mewn ymarfer. Mae'r dull amlddisgyblaethol wedi galluogi gweithio gwell ar y cyd rhwng timau a sefydliadau. | • Canolfannau iechyd meddwl<br>• Ffiniau Gofal |
| **Sir y Fflint** | Agor Canolbwynt Cymunedol 'Mi Fedraf' y Fflint gyda'r nod o gynorthwyo pobl i gysylltu â chymorth a gweithgareddau sy'n fwyaf perthnasol iddynt, gan anelu at gynnig ymyrraeth gynnar i atal problemau rhag gwaethygu.<br>Gweithredu grŵp 'Dynion Da' Sir y Fflint, a fydd yn rhoi cymorth i unrhyw ddarparwr gofal gwrywaidd â magu plant a gwella'u hiechyd meddwl, gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cymorth cymheiriaid. | • Mi Fedraf<br>• Dynion Da |
| **Gwynedd** | Datblygu prosiect 'Gallaf i' a ddatblygwyd i gynnig cymorth i unigolion yn y gymuned, gerllaw'r cartref. Fel rhan o'r prosiect, agorwyd canolfannau cymunedol. | • Gallaf I |
| **Ynys Môn** | Sefydlu grŵp llywio'r rhaglen 'Medraf' er mwyn adolygu prosiect 'Medraf' yn ei gyfanrwydd a phenderfynu ar gyflwyno'r model hwn yn y dyfodol. | • Medraf<br>• Timau Gweithredu Lleol |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Nodi bod angen adolygu'r Timau Gweithredu Lleol er mwyn sefydlu eu lle mewn penderfyniadau lleol ac is-ranbarthol. | |
| **Sir Fynwy** | Wyneb yn wyneb – therapïau creadigol sy'n cael eu cynnig gan dîm bach o therapyddion.<br>Cwnsela mewn ysgolion – cwnsela annibynnol, cyfrinachol i bobl ifanc 11 i 18 oed. | • Therapïau creadigol<br>• Cwnsela mewn ysgolion |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Cyd-leoli Cydlynwyr Gofal (personél awdurdodau lleol ac iechyd) i gynnal cysylltiad rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth. | • Cydlynwyr Gofal |
| **Casnewydd** | Lansio Fy Nhîm Cymorth, ymagwedd amlasiantaethol at ddarparu gwasanaeth therapiwtig i blant ag anghenion cymhleth.<br>Comisiynu gwasanaeth gan Mind sy'n cynnig cymorth i atal iechyd meddwl rhag dirywio. | • Fy Nhîm Cymorth<br>• Mind |
| **Sir Benfro** | Model gofal preswyl 'Prif ganolfan a lloerennau' gofal preswyl – yn cynnwys uned breswyl ranbarthol ganolog i blant â'r anghenion cymhleth tariff uchaf i'w defnyddio gan y 3 awdurdod lleol yn y rhanbarth. | • Prif ganolfan a lloerennau |
| **Powys** | Penodi Seicolegydd mewnol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gynorthwyo staff ar draws y Gwasanaethau Plant i feddwl am eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. | • Seicolegydd |
| **Rhondda Cynon Taf** | Adolygu a lansio darpariaeth Uwch-ymarferydd Iechyd Meddwl ysbyty pwrpasol, newydd, ar draws Gwasanaeth ein Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.<br>Dechrau gwaith i wreiddio dull model adfer trawma gyda chyfres o weithdai i'r holl staff yn ein cartrefi preswyl i blant a detholiad o weithwyr cymdeithasol ar draws gwasanaethau rheng flaen a maethu.<br>Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i gomisiynu darparwr trydydd sector i ddarparu ymyriadau therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal. | • Uwch-ymarferydd Iechyd Meddwl ysbyty<br>• Dull adfer trawma<br>• Ymyriadau therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal |
| **Abertawe** | Mae gwaith mapio cymorth rhanbarthol ar gyfer llety diogelach yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith cynllunio yn ystyried dulliau amlasiantaethol o lenwi bylchau ar draws gwasanaethau, gan gynnwys gweithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd ac Addysg i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i blant a phobl ifanc. | • Mapio cymorth llety |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Torfaen** | Parhau â datblygu 'Model Gofal Argyfwng ac Acíwt Person Cyfan, System Gyfan', gan sefydlu cymuned ymarfer.<br>Parhau â gweithredu Cyfamod Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl Gwent yn rhanbarthol. | • Cymuned Ymarfer<br>• Cyfamod Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl |
| **Wrecsam** | Cynnig 'I CAN' drwy ganolfannau cymunedol i alluogi pobl sy'n cael trafferth â'u hiechyd meddwl a'u lles gael gafael yn hawdd ar gymorth cynnar. | • I CAN |

### 17.2 Camddefnyddio sylweddau

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Castell-nedd Port Talbot** | Sefydlu cynllun peilot i ddarparu cymorth tai i unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol neu sylweddau i'w galluogi i gynnal eu tenantiaeth.<br>Sefydlu'r Gwasanaeth Niwed Cudd i gynnig help a chymorth i bobl leihau neu sefydlogi'u defnydd ar gyffuriau neu alcohol. | • Digartrefedd<br>• Rhieni |
| **Wrecsam** | Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gael i deuluoedd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau/alcohol rhieni, problemau iechyd meddwl a cham-drin domestig. | • Teuluoedd |

### 17.3 Anableddau dysgu, gwasanaethau i bobl anabl a phontio

Eleni, lansiodd Llywodraeth Cymru eu Cod Ymarfer drafft ar gyfer awtistiaeth ac ymgynghoriad.

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Penderfynu newid y tîm anableddau dysgu i 0-25 oed, a fydd yn cynnwys plant ac oedolion ifanc sy'n mynd trwy gyfnod pontio. Bydd timau gwaith cymdeithasol hirdymor yn ymdrin â'r rhai sydd dros 25 oed. | • Anableddau 0-25 oed |
| **Caerffili** | Hyrwyddo aelodaeth o My Mates (grŵp cymorth cyfeillgarwch) i bobl ag anableddau dysgu ddatblygu perthnasoedd a chyfeillgarwch personol. | • My Mates – Anableddau Dysgu |
| **Caerdydd** | Bwrw ymlaen â'r dull anabledd pob oedran, gyda rhywfaint o oedi. | • Anableddau pob oedran |
| **Conwy** | Datblygu cynllun gweithredu lleol ar Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig gyda phartneriaid. Aros am y Cod Ymarfer terfynol ac, yn dilyn hyn, ymgynghori â phobl ag Awtistiaeth a phartneriaid ar gynllun gweithredu lleol drafft Conwy a Sir Ddinbych. | • Cynllun gweithredu lleol ar gyfer Awtistiaeth |
| **Sir Ddinbych** | Ymgysylltu â theuluoedd unigolion ag anableddau dysgu i lywio manyleb y gwasanaeth ar gyfer prosiectau Byw â Chymorth.<br>Wedi cael cyllid i gynorthwyo Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru a Chyswllt Conwy i weithio ochr yn ochr â Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i wella sgiliau unigolion ag anableddau dysgu, er mwyn cyfrannu at gomisiynu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth. | • Byw â Chymorth – Anableddau Dysgu<br>• Comisiynu – Anableddau Dysgu |
| **Sir y Fflint** | Adolygu ardal y wefan ar gyfer Anableddau Dysgu a'i lenwi ag arfer da ac adnoddau, gan gynnwys, ymhlith eraill: mae I-Team yn amcanu at helpu pobl greu eu I-Teams eu hunain, Outside Lives, Gig Buddies (cynllun cyfeillio sydd yn paru pobl ag anableddau dysgu gyda gwirfoddolwr sydd y rhannu'r un diddordebau, a lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd)<br>Gyda maes gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dechrau datblygu adnodd i bobl ifanc a'u teuluoedd i helpu gyda phenderfyniadau wrth adael yr ysgol a dechrau oedolaeth. Hefyd mae'r tîm yn edrych ar ap arloesol a fydd yn cefnogi datblygu cynlluniau Cymorth Actif i bobl ag anableddau dysgu.<br>Lansio Luv2meetU Sir y Fflint, i gefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu, a'u teuluoedd i ddatblygu a chynnal perthnasoedd, gwella eu iechyd a'u lles ac ymestyn eu rhwydweithiau cymdeithasol.<br>Ailenwi Abbey Metal yn Uwchgylchu Abaty, ac mae ardal y gweithdy'n cael ei ailddylunio er mwyn uwchgylchu beiciau. | • Gwefan anableddau dysgu<br>• Offeryn gwneud penderfyniadau - anableddau dysgu<br>• Luv2meetU - anableddau dysgu<br>• Gweithdy beicio<br>• Gwobrau Gofal Cymdeithasol<br>• Awtistiaeth<br>• Pontio<br>• Hunanasesiad Cynnydd i Ddarparwyr |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cael 'Canmoliaeth Uchel' gan Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru am waith ym maes darparu gweithgareddau dydd ystyrlon i dros 250 o bobl ag anableddau dysgu.<br><br>Ar y cyd â Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru, gweithredu hyfforddiant a grwpiau ar-lein, fel 'Deall Awtistiaeth', ar gyfer Oedolion Awtistig sydd newydd gael eu diagnosio.<br><br>Sefydlu'r Tîm Plentyn i Oedolyn yn dilyn adolygiad o wasanaethau pontio er mwyn helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer byd oedolion.<br><br>Cyflwyno Rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr i ddarparwyr gwasanaethau anableddau dysgu, gan weithio gyda Helen Sanderson Associates i adolygu ac addasu offeryn hunanasesu presennol Cynnydd i Ddarparwyr. | |
| **Gwynedd** | Datblygu Hwb Cymunedol yn Nolfeurig, Dolgellau a gweithredu Gwasanaeth 'Pryd ar Glyd' yn ardal y Ffôr, Pwllheli, mewn cydweithrediad ag Agoriad, a ddarparodd gyfleoedd hyfforddiant a phrofiadau gwaith i unigolion ag Anableddau Dysgu.<br><br>Comisiynu gwasanaeth newydd i bobl ag anableddau dysgu, sy'n darparu llety dros nos i alluogi saib i ofalwyr.<br><br>Ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Ynys Môn, sefydlu Bwrdd Prosiect Amlasiantaethol i ddatblygu Cynllun Awtistiaeth. | • Hwb cymunedol – anableddau dysgu<br>• Saib dros nos – anableddau dysgu<br>• Cynllun Awtistiaeth |
| **Ynys Môn** | Parhau i ddatblygu cyllideb gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu gofal a chymorth a llety i bobl ag anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth. Datblygwyd cytundeb Adran 33 a rhoddwyd cynllun gweithredu lleol ar waith.<br><br>Prynu eiddo yng nghanol tref Llangefni er mwyn cefnogi Mencap Môn a rhoi hyb iddynt yng nghanol Ynys Môn, gan ganiatáu iddynt weithredu eu gweledigaeth, sef "byd lle mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal, eu bod yn cael clust a chael eu cynnwys". | • Cyllideb Gyfun – Anableddau dysgu<br>• Mencap |
| **Merthyr Tudful** | Mae Pobl yn Gyntaf wedi gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu i archwilio cyfathrebu sut gellir goresgyn rhai rhwystrau rhag cyfathrebu.<br><br>Cymeradwyo Polisi Pontio Paratoi ar gyfer Oedolaeth.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid amlasiantaethol i sefydlu Panel Cynllunio Pontio. | • Cyfathrebu – anableddau dysgu<br>• Polisi Pontio<br>• Panel Cynllunio Pontio |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Castell-nedd Port Talbot** | Bspoked – Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a chyflogaeth i oedolion anabl. | • Bspoked |
| **Casnewydd** | Datblygu Strategaeth Byw'n Annibynnol i nodi anghenion oedolion ag anableddau dysgu am lety yn y dyfodol.<br>Gweithio ar y cyd rhwng y Tîm Plant Anabl, y gwasanaethau oedolion a'r adrannau comisiynu ac addysg i barhau i gyflwyno cymorth sesiynol i blant a'u gofalwyr, a datblygu:<br>• dau wasanaeth byw â chymorth ar gyfer pontio ac un gwasanaeth preswyl<br>• darpariaeth gwasanaethau allgymorth a dydd newydd i bobl ifanc ac ymddygiadau cymhleth<br>• opsiynau addysg ôl 16 gwahanol i bobl ag anghenion addysgol arbennig. | • Strategaeth Byw'n Annibynnol Anableddau Dysgu<br>• Gwaith ar y cyd |
| **Sir Benfro** | Creu'r Dream Team, gyda Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, sy'n siarad ar ran pobl ag anabledd dysgu ac sy'n cael ei arwain gan hyrwyddwyr mewn meysydd amrywiol fel cyflogaeth, datblygiad cymunedol, cyfathrebu a chludiant. | • Hyrwyddwyr anableddau dysgu |
| **Rhondda Cynon Taf** | Lansio Prosiect Trawsnewid Anableddau Dysgu, i helpu i wella'r cynnig i bobl ag anabledd dysgu, gan ddechrau gan ddatblygu panel dinasyddion. | • Prosiect Trawsnewid Anableddau Dysgu<br>• Panel Anableddau Dysgu |
| **Abertawe** | Cefnogi Dinasyddion trwy Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Bae'r Gorllewin. | • Awtistiaeth |
| **Bro Morgannwg** | Parhau â gwaith prosiect 'See Me' o fewn Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu, gan gynorthwyo pobl sy'n troi at y gwasanaeth i greu proffiliau amdanynt eu hunain sy'n cyfleu gwybodaeth am bwy ydyn nhw, eu hoffterau a'u cas bethau, a beth sy'n bwysig iddynt trwy fideo amdanynt eu hunain. | • Prosiect 'See Me' – anableddau dysgu |
| **Wrecsam** | Peilota prosiectau technoleg gynorthwyol newydd ar draws Wrecsam, gan alluogi plant, oedolion, gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd i gael mynediad well at ofal a chymorth, a rheolaeth well drostynt.<br>Uwchraddio technoleg mewn cynlluniau byw â chymorth a rhoi prawf ar dechnolegau arloesol newydd gyda phobl. | • Technoleg gynorthwyol – anableddau dysgu<br>• Technoleg – anableddau dysgu<br>• Adnoddau hyfforddiant<br>• Cydgynhyrchu hyfforddiant |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cynorthwyo â datblygu nifer o adnoddau hyfforddiant wedi'u cydgynhyrchu, gan gynnwys Galluogi a Chymorth Gweithredol a Rhyw a Rhywioldeb.<br>Cydgynhyrchu hyfforddiant ymwybyddiaeth a gwasanaethau awtistiaeth gyfeillgar.<br>Comisiynu'r elusen awtistiaeth leol, i ddatblygu grŵp llywio awtistiaeth yn lleol gyda phobl â phrofiad bywyd ohono i lywio datblygiad gwasanaethau ac rydym yn recriwtio cydlynydd i gynorthwyo â darparu'r Cod Ymarfer a'n Cynllun Gweithredu Awtistiaeth lleol. | • Grŵp llywio awtistiaeth<br>• Awtistiaeth – cod ymarfer a chynllun gweithredu |

## 17.4 Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Gwynedd** | Cyfrannu at Raglen Llywodraeth y DU i Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria dros nifer o flynyddoedd ac ymrwymo i groesawu a chartrefu hyd at 20 o'r ffoaduriaid mwyaf bregus a nodwyd gan Uchel Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig dros y tair blynedd nesaf. | • Rhaglen adsefydlu |
| **Casnewydd** | Datblygu Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol i Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches i gynorthwyo â dosbarthu plant ar eu pen eu hunain, gan weithredu gyda Gwasanaethau Plant Caerdydd fel y rhanbarth ar gyfer Cymru. | • Cynllun trosglwyddo plant sy'n ceisio lloches |

## 17.5 Cyfiawnder ieuenctid

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Edrych eto ar fwyafrif y polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'n gwaith statudol a'r pum safon genedlaethol a amlinellwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a dechrau cyfres o fentrau fel:<br>• Polisi cyflwyno newydd gyda phroses<br>• Diwygio polisi a gweithdrefn Oedolyn Priodol<br>• Adolygu datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, polisi a phroses adolygu risg uchel | • Safonau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | • Adolygu a diwygio'r cerdyn melyn<br>• Ailgyflwyno contractau ABC gydag ein swyddog heddlu ar secondiad fel haen ataliol arall i rwystro plant rhag cael eu troseddoli<br>• Llunio polisi a gweithdrefnau Diogelu cymunedol<br>• Cyflwyno newyddlen i roi trosolwg o ddatblygiadau gwasanaeth | |

## 18. Darparu gofal cymdeithasol (rhyddhau o'r ysbyty, gofal dydd, gofal cartref a chartrefi gofal)

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Parhau i ddatblygu ein Gwasanaeth Gofal Brys Gartref (DASH). Mae hyn yn darparu cymorth brys i osgoi gorfod mynd â rhywun i'r ysbyty ac mae hefyd yn cynorthwyo â rhyddhau pobl yn gynnar.<br><br>Gweithio'n agos gyda phartneriaid i roi Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) ar waith ar gyfer pob achos o ryddhau pobl o'r ysbyty i leoliad gofal a llunio SOP tebyg ar gyfer derbyn pobl i leoliad gofal o'r gymuned mewn argyfwng. | • Emergency Care@Home<br>• Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Parhau i ailfodelu darpariaeth gofal preswyl. | • Gofal Preswyl |
| **Caerffili** | Datblygu Gweithdrefn Gweithredu Gwasanaeth a Phasbort Rhyddhau gyda'r Bwrdd Iechyd i alluogi pobl i gael eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty a'u derbyn i gartref gofal.<br><br>Canolbwyntio ar gynorthwyo pobl gartref i atal pobl rhag cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty. Mae staff Gofal Brys Gartref (EC@H) wedi gweithio gyda'r nyrsys a'r meddygon ymateb cyflym yn y Tîm Adnoddau Cymunedol i ddarparu cyfleusterau 'ysbyty gartref'.<br><br>Ymestyn ethos Gartref yn Gyntaf i gynnwys Ysbyty Tywysog Siarl a secondio Therapydd Galwedigaethol i ddrws ffrynt yr ysbyty i atal derbyniadau diangen. Sicrhau cyllid i ymestyn y model hwn i Ysbyty Athrofaol newydd y Grange. | • Pasbort a gweithdrefn Rhyddhau<br>• Gofal Brys Gartref<br>• Gartref yn Gyntaf |
| **Caerdydd** | Ymestyn Timau Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf (y Fyddin Binc) ar draws nifer o safleoedd ysbyty i atal a lleihau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Gweithio mewn tîm trwy ddull systemau cyfan. | • Pwynt Cyswllt Cyntaf Ysbyty |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Conwy** | Gweithio gyda'n darparwyr gwasanaethau dydd mewnol ac annibynnol a phartneriaid trydydd sector i ddatblygu opsiwn yn lle mynd i wasanaeth mewn adeilad a sefydlu grŵp Cynhwysiant Digidol, gan ganolbwyntio ar ddileu rhwystrau rhag cynhwysiant digidol a datblygu atebion ymarferol i gynorthwyo pobl i fynd ar-lein. | • Opsiynau yn lle Gofal Dydd |
| **Ynys Môn** | Sefydlu Hyb Rhyddhau ar sail Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2AR).<br>Cefnogi menter y Cynllun Gartref o'r Ysbyty dan arweiniad Gofal a Thrwsio sy'n hwyluso gwaith partneriaeth ac sy'n adnodd gwerthfawr wrth sicrhau bod unigolion yn gadael yr ysbyty ac yn mynd i gartref diogel mewn modd amserol. | • Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu<br>• Cynllun Gartref o'r Ysbyty |
| **Merthyr Tudful** | Datblygu Strategaeth Cyfleoedd Dydd i nodi'r camau nesaf a'r cerrig milltir allweddol i'r gwasanaeth wrth fynd ymlaen, a fydd yn cynnwys y newidiadau cadarnhaol a negyddol a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig. | • Strategaeth Cyfleoedd Dydd |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd i ddatblygu llwybrau a phrosesau i symleiddio'r gwaith o gynllunio i ryddhau pobl o'r ysbyty. | • Rhyddhau o'r ysbyty |
| **Casnewydd** | Cynnal gwasanaeth rhanbarthol Gartref yn Gyntaf ac agor Gwasanaeth Gartref yn Gyntaf cwbl weithredol yn Ysbyty Athrofaol y Grange. | • Gartref yn Gyntaf |
| **Sir Benfro** | Ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd i gyd-gynhyrchu model newydd ar gyfer cyfleoedd dydd. Gweithio gyda phartneriaid i nodi model darpariaeth prif ganolfan a lloerennau.<br>Parhau i ddatblygu a thyfu'r tîm gofal cartref yn fewnol. | • Cyfleoedd dydd<br>• Tîm mewnol gofal cartref |
| **Powys** | Rhoi'r llwybr Rhyddhau i Adfer yna Asesu ar waith, sydd bellach wedi'i wreiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys. Bellach rydym yn gweithio ar ddatblygu'r llwybr ymhellach a'i integreiddio gyda gwasanaethau adsefydlu eraill sy'n anelu at gynorthwyo pobl i fynd adref. | • Rhyddhau i Adfer yna Asesu<br>• |
| **Rhondda Cynon Taf** | Parhau i ddatblygu 300 o leoedd Gofal Ychwanegol fel math modern o dai sy'n gallu bodloni anghenion cymorth tenantiaid yn well wrth iddynt heneiddio. | • Gofal Ychwanegol<br>• Cartrefi gofal preswyl |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| | Cytuno ar ddyfodol cartrefi gofal preswyl y Cyngor ar ôl ymgynghoriad helaeth a chadarnhau'r cynnig i ddatgomisiynu'r cartref gofal preswyl yn Nanymynydd, Porth, ac ailddatblygu'r safle i ddarparu cynllun tai 60 gwely newydd. | |
| **Abertawe** | Diwygio'r model o'r ysbyty i'r cartref a'i gynnwys yn y model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu cenedlaethol.<br>Datblygu un pwynt mynediad i dimau integredig reoli pob un sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. | • Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu<br>• Rhyddhau o'r ysbyty |
| **Torfaen** | Parhau ag "Mireinio ac Ailgynllunio" Cyfleoedd Dydd. | • Gofal dydd |
| **Wrecsam** | Sefydlu'r gwasanaeth 'Ymateb Cyflym', a fyddai'n helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac atal yr aros hir am becynnau gofal cartref. | • Ymateb cyflym – rhyddhau |

## 19. Amrywiol

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
|---|---|---|
| **Gwynedd** | Parhau â phrosiect Pontio'r Cenedlaethau gyda Chydweithredfa Gogledd Cymru. Y prif brosiect oedd y Cynllun Pen-Pals, lle danfonwyd dros 120 o lythyrau hanfon. | • Pontio'r Cenedlaethau |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Peilota Rhaglen Ddysgu gyda Chymorth Ceffylau yn fath o ddysgu trwy brofiad sy'n cynnwys ceffylau, gyda hwylusydd yn gweithio gyda'r unigolyn i greu newid cadarnhaol. | • Rhaglen Ddysgu gyda Chymorth Ceffylau |
| **Sir Benfro** | Sicrhau cyllid i ddatblygu pedwar fflat sy'n cynnig llety â chymorth yng Ngholeg Sir Benfro. | • Llety yn y coleg |
| **Powys** | Gweithio mewn partneriaeth â Chymorth Canser Macmillan i wella taith canser trwy siarad â phobl sy'n byw gyda chanser a gwrando ar eu safbwyntiau. | • Gwella taith canser |
| **Wrecsam** | Parhau i roi cefnogaeth i deuluoedd plant oedran cyn ysgol a phlant agored i niwed trwy'r Cynllun Enfys. | • Cynllun Enfys<br>• Pontio'r Cenedlaethau |

| Pwy | Pa fentrau allweddol a roddwyd ar waith? | Yn gryno |
| --- | --- | --- |
| | Dechrau cysylltu meithrinfeydd ac ysgolion â chartrefi gofal trwy gydlynwyr gweithgareddau i'n helpu i gydgynhyrchu strategaeth pontio'r cenedlaethau i ymgorffori a thyfu'r maes datblygu gwasanaethau hwn. | |

## 20. Blaenoriaethau 2021/2022

Mae pob ALl ar draws Cymru yn sôn y byddant, rywsut neu'i gilydd, ar gyfer 2021/2022, yn rhoi cynllun adfer yn sgil Covid ar waith, neu'n edrych ar wersi a ddysgwyd o'r pandemig, neu'n adfer gwasanaethau a gaewyd yn ystod cyfnodau clo, neu'n ymgysylltu er mwyn amlygu dyfodol priodol ar gyfer rhai arferion a newidiodd. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r isod yng nghyd-destun adfer yn sgil y pandemig ac yn seiliedig ar anghenion a nodwyd eisoes.

| Pwy? | Perfformiad | Y Gweithlu | Llesiant | Atal, ymyrryd yn gynnar | Eiriolaeth | Integreiddio, cydweithredu, partneriaeth | Cyflogaeth, addysg | Diogelu | Gofalwyr | Dementia | Tai | Plant sy'n derbyn gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | | | | Oes | | Oes | | Oes | | | | |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | Oes | | Oes | | Oes | | Oes | | | | |
| **Caerffili** | Oes | Oes | | Oes | | Oes | | Oes | | | | |
| **Caerdydd** | Oes | Oes | | | | Oes | | Oes | | | | Oes |
| **Sir Gaerfyrddin** | | | | Oes | | Oes | | Oes | | | Oes | Oes |
| **Ceredigion** | | | | | | | | | | | | |
| **Conwy** | | Oes | Oes | Oes | | Oes | | Oes | Oes | | | Oes |
| **Sir Ddinbych** | | | | Oes | | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | | |
| **Sir y Fflint** | | | | Oes | | | Oes | Oes | Oes | Oes | | |
| **Gwynedd** | | Oes | Oes | | | Oes | | | | | | |
| **Ynys Môn** | | Oes | | Oes | | Oes | | Oes | Oes | Oes | Oes | |
| **Merthyr Tudful** | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | | |

| Pwy? | Perfformiad | Y Gweithlu | Llesiant | Atal, ymyrryd yn gynnar | Eiriolaeth | Integreiddio, cydweithredu, partneriaeth | Cyflogaeth, addysg | Diogelu | Gofalwyr | Dementia | Tai | Plant sy'n derbyn gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sir Fynwy** | Oes | Oes | Oes | Oes | | Oes | | | Oes | | Oes | Oes |
| **Castell-nedd Port Talbot** | | | | | | | | Oes | | | | Oes |
| **Casnewydd** | | Oes | | Oes | | Oes | | Oes | Oes | Oes | Oes | |
| **Sir Benfro** | | Oes | | Oes | | Oes | | Oes | Oes | | Oes | Oes |
| **Powys** | Oes | Oes | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | | | Oes | Oes |
| **Rhondda Cynon Taf** | | Oes | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | | | Oes | Oes |
| **Abertawe** | Oes | Oes | Oes | Oes | | Oes | | Oes | Oes | | | |
| **Torfaen** | | Oes | Oes | Oes | | Oes | | Oes | | Oes | Oes | |
| **Bro Morgannwg** | | Oes | | Oes | | Oes | | | Oes | | | |
| **Wrecsam** | | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | | | |

| Pwy? | Y Gymraeg | Ffyrdd o weithio | Technoleg | Comisiynu, brocera, Diogelu Data | Iechyd meddwl | Camddefnyddio sylweddau | Pobl anabl | Ffoaduriaid, cyfiawnder ieuenctid | Rhyddhau o’r ysbyty | Gofal dydd | Gofal cartref | Cartrefi gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | | | | | | | | | | | | |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | Oes | | Oes | | | | | | | | |
| **Caerffili** | | | | | | | | | | Oes | | |
| **Caerdydd** | | Oes | Oes | | | | | | Oes | | Oes | |
| **Sir Gaerfyrddin** | Oes | Oes | | | Oes | | Oes | | | | Oes | |
| **Ceredigion** | | | | | | | | | | | | |
| **Conwy** | | | Oes | | | | Oes | Oes | | Oes | | |
| **Sir Ddinbych** | | | | Oes | | | | | | | Oes | |
| **Sir y Fflint** | Oes | | | | | | Oes | | | | | Oes |
| **Gwynedd** | | | Oes | | | | | | | | | |
| **Ynys Môn** | | | Oes | Oes | | | | | | Oes | | |
| **Merthyr Tudful** | | | Oes | Oes | | | Oes | | Oes | Oes | | Oes |
| **Sir Fynwy** | | | | | | | | | | | | Oes |
| **Castell-nedd Port Talbot** | | Oes | | | | | | | Oes | Oes | | |
| **Casnewydd** | | | Oes | | | | Oes | | | Oes | Oes | Oes |

| Pwy? | Y Gymraeg | Ffyrdd o weithio | Technoleg | Comisiynu, brocera, Diogelu Data | Iechyd meddwl | Camddefnyddio sylweddau | Pobl anabl | Ffoaduriaid, cyfiawnder ieuenctid | Rhyddhau o’r ysbyty | Gofal dydd | Gofal cartref | Cartrefi gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sir Benfro** | | | Oes | Oes | | | Oes | | Oes | Oes | Oes | |
| **Powys** | | Oes | | Oes | | | | | Oes | | Oes | Oes |
| **Rhondda Cynon Taf** | | | Oes | Oes | Oes | | | | | | Oes | |
| **Abertawe** | | Oes | Oes | Oes | | | | | | | | |
| **Torfaen** | | Oes | | Oes | | | | | | | Oes | |
| **Bro Morgannwg** | | Oes | Oes | | | | | Oes | Oes | | | |
| **Wrecsam** | | Oes | Oes | | | | | | | | | |

social care
institute for excellence

Social Care Institute for Excellence
Isosceles Head Office, One High Street
Egham TW20 9HJ

www.scie.org.uk